



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

Diogelu Dyfodol Cymru

Rhagair y Gweinidog



Ein gweledigaeth ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yw cefnogi swyddi a thwf mewn cymunedau ledled Cymru, mewn ffordd gynhwysol a chynaliadwy sy'n rhoi pwyslais ar gyfuno buddsoddiadau a phenderfyniadau rhanbarthol.

Mae ein strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* wrth wraidd ein Fframwaith, fel y mae cryfder partneriaeth yr ydym wedi dysgu cymaint oddi wrtho ers i ddatganoli ddechrau ugain mlynedd yn ôl. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithio'n effeithiol gydag awdurdodau lleol, y sector preifat, maes ymchwil a'r byd academiaidd, y trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus eraill er mwyn cynnig dyfodol ffyniannus i bawb yng Nghymru.

Rwy'n ddiolchgar dros ben i'r ystod eang o randdeiliaid sydd wedi gweithio gyda ni wrth inni gyd-ddylunio'r Fframwaith hwn, am eu hymrwymiad, eu brwdfrydedd, a'u harbenigedd. Mae Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru a gweithgorau technegol, sy'n cynnwys ystod eang o sectorau, i gyd wedi chwarae rhan werthfawr i gynghori Llywodraeth Cymru ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda hyd yma a beth y gellir ei wneud yn well yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi manteisio ar adborth a safbwyntiau helaeth o'n hymgyngoriad cyhoeddus a

gynhaliwyd yn gynharach eleni yn ogystal â'r arferion gorau mewn gwledydd eraill drwy ein gwaith gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae Cymru nawr mewn sefyllfa i wneud y mwyaf o gyfleoedd buddsoddi yn y dyfodol, ac i weithio'n hyblyg ar draws ffiniau, a thrwy bartneriaethau amrywiol, er mwyn gwneud hynny.

Mae gwendidau economaidd strwythurol yn parhau i fod mewn rhannau o Gymru. Byddwn yn wynebu heriau newydd sylweddol pan fydd Cyfnod Pontio'r Undeb Ewropeaidd yn dod i ben yn y man, a bydd angen ffyrdd newydd o weithio. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fel gwledydd eraill o amgylch y byd, mae amgylchiadau digynsail y pandemig Covid hefyd wedi taro ein heconomi, ein pobl a'n cymunedau yn galed. Mae gan y Fframwaith hwn ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith ailadeiladu yn sgil Covid, er mwyn annog ffyniant, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hybu llesiant.

Ni fyddwn yn cael cyllid ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol yn uniongyrchol gan yr UE mwyach. Fodd bynnag, er mwyn inni fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu yn sgil y cyfleoedd sydd ar gael inni, mae'n hanfodol bod Cymru yn cael cyllid parhaus gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn lle cyllid yr UE ar ôl y Cyfnod Pontio – fel yr addawyd – a bod y penderfyniadau ynglŷn â sut i ddefnyddio'r cyllid hwnnw yn parhau i fod wedi'u datganoli i Gymru.

Mae ein Fframwaith yn canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi, sef cynhyrchiant a chystadleurwydd busnesau,

cymunedau iachach, tecach a mwy cynaliadwy, yr economi ddi-garbon, a lleihau anghydraddoldebau economaidd i bobl. Mae'r blaenoriaethau hyn yn ddigon penodol i'n harwain tuag at ein nod o sicrhau ffyniant a chynwysoldeb, ond yn ddigon hyblyg i ymateb i'r newidiadau cyson yn y dirwedd yr ydym yn gweithredu ynddi.


Mae themâu cyfleoedd a chydraddoldeb rhywiol, cynaliadwyedd, a ffyniant y Gymraeg hefyd wedi'u plethu i'r Fframwaith mewn ffordd drawsbynciol sy'n galluogi eu rhoi ar waith mewn cyd-destunau gwahanol.

Ond mae ein Fframwaith yn cydnabod bod polisi yn cael ei roi ar waith ar lawr gwlad ac felly mae rôl hollbwysig i'n rhanbarthau – gan gwmpasu'r Gymru drefol, gwledig, ôl-ddiwydiannol, dinesig, ac arfordirol. Mae'n cefnogi datganoli pŵer i ranbarthau a phobl yn eu hardaloedd lleol, fel y gallant wneud penderfyniadau a ffurfio'r mathau o bartneriaethau newydd a dynamig a all gysylltu lleoedd a buddsoddiadau mewn ffyrdd newydd a chreadigol. Drwy wneud hynny, gallwn sicrhau bod twf economaidd yn y dyfodol yn gynaliadwy ac yn deg.

Mae ein Fframwaith yn adeiladu ar fanteision gweithio gyda phartneriaid ledled y DU, yn Ewrop a'r tu hwnt i godi proffil Cymru a helpu i'n gwneud yn fwy cystadleuol ac adnabyddus yn rhyngwladol.

Mae'n rhoi'r cyfle inni i gyd yng Nghymru wneud y mwyaf o fuddsoddiadau'r dyfodol er mwyn rhoi'r cadernid a'r ffyniant yr ydym yn anelu atynt, y gallu i gystadlu ar lefel ryngwladol, a chyflawni ein hamcanion llesiant.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi i wireddu'r weledigaeth yr ydym yn ei rhannu ar gyfer Cymru ffyniannus a chynhwysol, gyda'r creadigrwydd a'r uchelgais sydd wedi bod wrth wraidd y gwaith o gyd-ddatblygu'r Fframwaith hwn.



Jeremy Miles AS

**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog
Pontio Ewropeaidd**

Tabl Cynnwys

Cyd-destun a Gweledigaeth	2
Egwyddorion y Fframwaith	4
Sut rydym am gyrraedd y nod.....	6
Cyd-destun unigryw i Gymru	6
Ein Fframwaith ar Waith	8
Trosolwg	8
Dull Amlhaenog: Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol.....	9
Themâu Llorweddol.....	14
Gwaith Trawsffiniol a Rhyngwladol	15
Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer Buddsoddi	19
Busnesau Mwy Cynhyrchiol a Chystadleuol	21
Lleihau'r Ffactorau sy'n arwain at Anghydraddoldeb Economaidd.....	27
Cefnogi'r Broses o Bontio i Economi Ddi-Garbon	32
Cymunedau Iachach, Tecach a mwy Cynaliadwy	36
Llywodraethu Cyson a Thryloyw	41
Cyllid Amlflwydd	41
Cyllid Ad-daladwy.....	42
Gwerthuso a Dangos Tystiolaeth o Gyflawni	42
Atodiad: Rhestr o'r Amcanion Strategol.....	43

Cyd-destun a Gweledigaeth

Yn ein Papur Gwyn *Diogelu Dyfodol Cymru*¹ (Ionawr 2017) ac yn y ddogfen *Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit*² (Rhagfyr 2017), nodwyd pa mor bwysig oedd hi bod Cymru'n parhau i gael o leiaf yr un lefel o gyllid datganoledig ar gyfer buddsoddi rhanbarthol ag y mae'n ei chael ar hyn o bryd gan yr Undeb Ewropeaidd. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd partneriaeth â rhanddeiliaid ar draws Cymru i ddatblygu Fframwaith newydd ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol, a fydd yn mynd i'r afael ag anghenion a heriau ac yn sbarduno cyfleoedd yng Nghymru yn greadigol a gydag uchelgais.

Rydym wedi ymrwymo i wella'r ffordd mae buddsoddi rhanbarthol yn cael ei ddarparu a sut y gall fodloni anghenion a chyfleoedd rhanbarthau ar hyd a lled Cymru, mewn ardaloedd trefol, gwledig, ôl-ddiwydiannol, dinesig ac arfordirol, yn y ffordd orau bosibl. Yn gynharach eleni fe wnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus llwyddiannus³, a oedd wedi'i ddatblygu gyda'n rhanddeiliaid, er mwyn galluogi pob dinesydd i gyflwyno ei safbwyntiau ar y cynigion newydd ar gyfer Fframwaith sy'n canolbwyntio ar gyflawni amcanion strategol o ran ffyniant a chynwysoldeb ym mhob rhanbarth yng Nghymru. Fe wnaethom hefyd ffurfio partneriaeth â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), gan wahodd her a dadansoddi trwyadl dros bron i ddwy flynedd er mwyn sicrhau bod yr arferion gorau rhyngwladol wrth galon ein gwaith. Arweiniodd hyn at ei adroddiad, *Dyfodol Datblygiad Rhanbarthol a Buddsoddiad Cyhoeddus yng Nghymru, y Deyrnas Unedig*⁴.

Ffrwyth ein cydweithrediad yw'r Fframwaith hwn ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, sy'n nodi'r strategaeth lefel uchel y bydd ymyriadau lleol, rhanbarthol a Chymru gyfan yn cyfrannu ati. Mae ein Fframwaith yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod 20 mlynedd o bolisi cydlyniant yr UE, ac ar syniadau newydd a chynigion arloesol gan rhanddeiliaid a dinasyddion drwy gydol yr ymgynghoriad. Mae ein cynlluniau yn y Fframwaith hwn yn ddibynnol ar gael cadarnhad gan Lywodraeth y DU ar ei chynigion ar gyfer Cronfa

¹ <https://llyw.cymru/diogelu-dyfodol-cymru>

² <https://llyw.cymru/buddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-ar-ol-brexit>

³ Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 28 Chwefror a 10 Mehefin 2020, a chafodd ei gefnogi gan amrywiaeth o fesurau cyfathrebu ac ymgysylltu gan gynnwys digwyddiadau ar-lein rhanbarthol, yn ogystal ag arolygon i ddinasyddion ac i bobl ifanc. Gwnaethom gomisiynu adroddiad annibynnol ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad³, sydd ar gael yma <https://llyw.cymru/fframwaith-buddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru>

⁴ Mae adroddiad yr OECD ar gael yma <https://www.oecd.org/unitedkingdom/the-future-of-regional-development-and-public-investment-in-wales-united-kingdom-e6f5201d-en.htm>. Byddwn yn parhau i ystyried holl argymhellion eang yr OECD ymhellach gyda'n partneriaid dros y misoedd nesaf. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'r OECD i sefydlu gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer pecyn cymorth i asesu gallu rhanbarthau i helpu i gyflawni'r Fframwaith hwn, ond bydd rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru benderfynu ar nifer o'r cwestiynau strwythurol mwy.

Ffyniant Gyffredin y DU a fydd yn cymryd lle cyllid yr UE⁵, gan gynnwys swm y cyllid a bod penderfyniadau ynghylch cynllunio rhaglenni a dyrannu cyllid wedi'u datganoli i Gymru, fel y maent nawr.

Mae Cymru wedi newid yn gyflym yn ystod ei hanes diweddar. Mae effeithiau'r pandemig Covid wedi golygu bod angen ailadeiladu'r economi dros y misoedd a'r blyneddau nesaf. Er ein bod yn awyddus i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid trawsffiniol, mae cael cyllid gan Lywodraeth y DU yn lle cyllid yr UE, a sicrhau bod penderfyniadau ynghylch gwariant yn aros yn nwylo Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid, yn bwysicach byth.

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r cyllid newydd gan Lywodraeth y DU ar gyfer buddsoddi rhanbarthol, a'n gweledigaeth drwy'r Fframwaith hwn yw gwneud y mwyaf o'r adnoddau hyn i Gymru er mwyn adeiladu economi fwy modern sy'n amrywiol ac yn gynhwysol, gan fanteisio ar gyfleoedd technoleg uwch a gwerth uchel ar y cyd â'r economi sylfaenol⁶, sy'n sicrhau bod ein cymunedau'n parhau i ffynnu. Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio gyda phartneriaid cyllido ledled y DU, gan weithio ar draws ffiniau, lleoedd a sefydliadau i sicrhau gweithlu mwy medrus a gwaith teg, trechu tlodi, a chreu economi fwy cyfartal, mwy ffyniannus, a mwy gwyrdd er budd Cymru gyfan.

Wrth galon ein Fframwaith y mae ein Deddf flaengar, *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*⁷, sy'n golygu bod rhaid i'r camau rydym yn eu cymryd helpu i sicrhau newid cynaliadwy sy'n cael ei werthuso drwy ddull seiliedig ar ganlyniadau.

Mae ein Fframwaith yn datblygu dull seiliedig ar leoedd ein *Cynllun Gweithredu ar yr Economi*⁸, gan rymuso rhanbarthau i ddatblygu eu cryfderau a'u cyfleoedd unigryw eu hunain, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel lywodraethu briodol ac mor agos i lefel dinasyddion â phosibl.

Rydym yn gwybod y gellir gwella o ran buddsoddi yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gwell cysoni strategol ag anghenion cymunedau ar hyd a lled Cymru, gan sicrhau gwerth am arian a pheidio â dyblygu gweithgareddau. Rydym hefyd yn gwybod bod manteision sylweddol i gydgyssylltu buddsoddiadau. Byddwn yn gwneud hyn drwy fynd ati'n fwy effeithiol i integreiddio'r amrywiaeth o ffrydiau cyllido sy'n cyfrannu at ddatblygiad economaidd rhanbarthol ar hyn o bryd, a'r amrywiaeth o offerynnau

⁵ Mae cyllid yr UE yn y cyd-destun hwn yn golygu Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

⁶ Mae'r gwasanaethau a'r cynnyrch sydd yn yr economi sylfaenol yn darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol hynny y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt, ac yn ein cadw'n ddiogel, yn iach ac yn waraidd. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthu ar y stryd fawr i gyd yn enghreifftiau o'r economi sylfaenol. Mae'r amcangyfrifon yn awgrymu eu bod yn cyfrif am bedwar o bob deg swydd, a £1 o bob £3 rydym yn ei gwario. (ffynhonnell: Busnes Cymru)

⁷ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/dogfen-hawdd-ei-ddeall-nodiadau-ar-ddeddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol.pdf>

⁸ <https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi>

ariannol sy'n cael eu defnyddio. Bydd hyn yn cynnwys ffynonellau cyllido ar draws y DU, yn y sector preifat, ac yn y sector cyhoeddus ehangach.

Drwy'r Fframwaith hwn, rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle i greu dull mwy cymesur, sy'n seiliedig ar risg. Mae hyn yn cadw manteision fframwaith seiliedig ar reolau clir a thryloyw o'n profiad o reoli cyllid Ewropeaidd ac o feincnodau rhyngwladol, ond hefyd yn sbarduno cyfleoedd ar gyfer rhagor o arloesi a rhagor o fuddsoddiad gan y sector preifat. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y gwaith dros y ddau ddegawd diwethaf o integreiddio cydraddoldeb, datblygu cynaliadwy a'r Gymraeg yn ein buddsoddiadau, ac yn ysgogi gweithio trawsffiniol a rhyngwladol i gyflwyno Cymru hyd yn oed ymhellach dramor er mwyn ein helpu i fod yn fwy cystadleuol ar lefel fyd-eang.

Bydd ein Fframwaith yn helpu pob rhan o Gymru, mewn ardaloedd trefol, gwledig, ôl-ddiwydiannol, dinesig ac arfordirol, i ffynnu. Yr hyn sy'n dylanwadu arno yw ein cydestun economaidd a phwras cymdeithasol go iawn. Mae hefyd yn eangfrydig, yn agored i syniadau a chyfleoedd newydd, ac yn barod i gystadlu ar lwyfan byd-eang er mwyn inni, gyda'n gilydd, wireddu ein gweledigaeth o Gymru fwy cyfartal, ffyniannus a gwyrdd.

Egwyddorion y Fframwaith

Yn sgil y pandemig Covid ac Ymadael â'r UE, bydd hi'n bwysicach nag erioed meithrin cydnheredd a hyblygrwydd ein heconomi drwy adeiladu ar ein gallu cryf ym meysydd ymchwil ac arloesi, sefydlu a thyfu ystod amrywiol o fusnesau ac allforion, datblygu seilwaith a sgiliau angenrheidiol ar draws y rhanbarthau, cyflymu'r broses o bontio i fod yn economi ddi-garbon, a gwneud hyn i gyd mewn ffordd deg a chynhwysol.

Dyna pam mai nod ein Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru yw cefnogi ffyniant a chynwysoldeb ledled Cymru, gan adeiladu ar *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* (Deddf LICD) drwy bedair blaenoriaeth gyffredinol ar gyfer buddsoddi:

- **Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol**
- **Lleihau'r ffactorau sy'n arwain at anghydraddoldeb economaidd**
- **Cefnogi'r broses o bontio i economi ddi-garbon**
- **Cymunedau iachach, tecach a mwy cynaliadwy**

Mae ein Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yn defnyddio dull seiliedig ar lleoedd a phobl sy'n gwneud y canlynol:

- **Canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau**, y newidiadau strwythurol hirdymor y mae ein rhanbarthau'n dyheu amdanynt. Mae cyfle go iawn i sicrhau bod ein buddsoddiadau'n ychwanegu gwerth, heb ddyblygu gweithgareddau nac ymdrechion, er mwyn inni wneud yn fawr o'n buddsoddiadau a helpu i greu'r Gymru y carem ei gweld.
- **Cefnogi rhanbarthau drwy symud y broses o flaenoriaethu a gwneud penderfyniadau** yn agosach i'r bobl a'r lleoedd a ddylai elwa. I wneud hyn, byddwn yn gweithio gyda'r rhanbarthau i adeiladu ar eu trefniadau llywodraethu sy'n bodoli eisoes a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, megis y rhai a ddatblygwyd i weithredu'r pedair Bargaen Ddinesig a Thwf ledled Cymru. Byddwn hefyd yn rhoi digon o adnoddau a phwerau cyfreithiol iddynt fel y byddant wedi'u grymuso i gyflawni rhaglenni buddsoddi ehangach ar raddfa fawr. Rydym yn disgwyl i'r trefniadau hyn gynnwys yr holl randdeiliaid allweddol ym mhob rhanbarth, er y bydd y ffordd o wneud hynny yn cael ei phennu yn lleol. Ein mecanwaith arfaethedig fydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig arfaethedig o dan y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd⁹. Bydd y Cyd-bwyllgorau hyn yn galluogi rhanbarthau i flaenoriaethu dyraniadau cyllid a phortffolios o ymyriadau integredig mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith hwn, a'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol sydd wrthi'n cael eu dylunio ar y cyd â rhanddeiliaid ac mewn partneriaeth a thimau Prif Swyddog Rhanbarthol Llywodraeth Cymru.
- **Integreiddio â'n polisïau a hwyluso rhagor o gyfleoedd i gydgyssylltu buddsoddiadau a gweithgareddau** yng Nghymru, yn ogystal â'r DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys rhaglenni ymchwil ac arloesi, a'r Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf, i sicrhau gwell cysoni strategol a gwerth am arian. Mae hefyd yn golygu helpu i roi ein gwlad mewn sefyllfa i fanteisio ar yr holl adnoddau sydd ar gael iddi – ble bynnag y maent yn bodoli – a'n bod yn gweithio ar draws ffiniau, lleoedd a sefydliadau i gysoni cyfleoedd a manteisio arnynt.
- **Lleihau'r baich gweinyddol ar sefydliadau**, gan fod yn ddigon hyblyg i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i heriau sy'n codi.
- **Darparu cyllid amlflwydd**, lle bo'n bosibl, i rai agweddau ar weithgareddau buddsoddi rhanbarthol er mwyn cynnig sicrwydd tymor hwy i sefydliadau o ran cynllunio buddsoddiadau, a rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau canlyniadau.

⁹ <https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=26688>

- **Integreiddio cydraddoldeb, datblygu cynaliadwy a'r Gymraeg** (a elwir yn 'themâu llorweddol') yn ein buddsoddiadau.
- **Annog cydweithio ar draws ffiniau**, yng Nghymru a thu hwnt, er mwyn ein helpu i ddod o hyd i atebion go iawn i'r anghenion, yr heriau a'r cyfleoedd cyffredin rhyngom, a sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn bartner gweithredol, uchel ei barch yn Ewrop ac yn rhyngwladol.
- **Sicrhau bod gan ardaloedd lleol a rhanbarthau y gallu a'r capasiti angenrheidiol** i ddiwallu anghenion a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd buddsoddi economaidd rhanbarthol.
- **Darparu trefniadau symlach a mwy cymesur** sy'n cynnal ein hymrwymiad i sicrhau bod buddsoddiadau yn agored, yn deg ac yn dryloyw.

Sut rydym am gyrraedd y nod

Cyd-destun unigryw i Gymru

Rydym yn unigryw yma yng Nghymru. Mae ein polisïau a'n model rhanbarthol yng Nghymru yn arbennig. Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn arloesol ac ar flaen y gad, a hon yw conglaen polisi Llywodraeth Cymru.

Mae strwythur ein Fframwaith yn seiliedig ar y ffyrdd o weithio yn yr egwyddor datblygu cynaliadwy i gyrrff cyhoeddus yn Neddf LICD: integreiddio amcanion, cydweithio o fewn sefydliadau a rhyngddynt, gwneud penderfyniadau nad ydynt yn aberthu ein gallu i fodloni ein hanghenion yn y tymor hir, cynnwys dinasyddion yn y penderfyniadau sy'n berthnasol iddynt, ac atal problemau rhag codi neu waethygu.

Mae *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*¹⁰ yn nodi sut byddwn yn sicrhau twf cynaliadwy a chynhwysol, a dyna sydd wrth wraidd y meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi y byddwn yn eu cefnogi drwy ein Fframwaith – meysydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael eu targedu'n well.

Ein hymrwymiad i rymuso rhanbarthau yw conglaen ein *Cynllun Gweithredu ar yr Economi*, sy'n cefnogi newid go iawn drwy gydnabod pwysigrwydd lleoedd a phobl. Mae'n darparu'r trywydd rydym am ei ddilyn drwy weithio gyda phob rhanbarth, gan gynnwys partneriaid newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, i bennu ac ysgogi ei atebion arloesol a chreadigol ei hun, yn unol â'i gryfderau, ei anghenion a'i gyfleoedd ei hun.

Mae'r amcanion strategol yn ein pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yn y Fframwaith yn adlewyrchu'r gwaith manylach ar ailadeiladu economaidd sydd eisoes

¹⁰ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf>

wedi dechrau i fynd i'r afael ag effaith y pandemig Covid. Mae'r gwaith ailadeiladu hwn yn seiliedig ar werthoedd ac mae'r genhadaeth adferiad economaidd yn cael ei llywio gan yr egwyddorion eang canlynol:

- Nod sylfaenol **economi llesiant** yw sicrhau llesiant cynaliadwy gydag urddas a thegwch i bobl a'u hamgylchedd. Dylai gryfhau cyfalaf cymdeithasol a naturiol, gan gynhyrchu datblygiad ymysg pobl ar yr un pryd.
- Er mwyn cael **economi ffyniannus**, rhaid canolbwyntio ar gydnerthedd â'r gallu i drawsnewid. Camau gweithredu i gefnogi sylfaen economaidd amrywiol, ond cydberthynol, o gwmnïau eangfrydig sy'n perfformio'n dda o ran arloesedd, sydd â lefelau cynhyrchiant uchel, a gweithlu medrus.
- Bydd lefelau uchel o gylcholrwydd mewn **economi werdd**, lle mae adnoddau yn dal i gael eu defnyddio, gan ychwanegu gwerth economaidd ac osgoi gwastraff. Yn rhan o gymdeithas carbon isel lle rydym yn buddsoddi mewn seilwaith carbon isel sy'n gallu addasu i'r newid yn yr hinsawdd, prosiectau ynni adnewyddadwy, a chartrefi cynaliadwy.
- Ystyr **economi deg** yw buddsoddi ym mhotensial cynhyrchol yr holl bobl mewn cymunedau, lle mae cyfleoedd yn cael eu dosbarthu'n deg ac mae gan bobl gyflogaeth deilwng a diogel.

Mae ein Contract Economaidd, y mae dros 12,000 o fusnesau wedi ymrwymo iddo, hefyd yn cael ei gryfhau ar hyn o bryd i sefydlu'r gwerthoedd hyn ymhellach.

Mae sicrhau ein bod yn ystyried yr holl feysydd polisi sy'n effeithio ar ddatblygiad economaidd rhanbarthol yn rhan bwysig o ddull gweithredu mwy cyson ac integredig. Felly, mae ein Fframwaith hefyd yn cyd-fynd â pholisïau eraill ar gyfer sicrhau ffyniant a threchgu tlodi, gan gynnwys ein *Strategaeth Ryngwladol*¹¹, y *Fframwaith Datblygu Cenedlaethol*¹², *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru*¹³, y *Cynllun Cyflogadwyedd*¹⁴, *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*¹⁵, y *Strategaeth Arloesi*¹⁶, *Cymru Iachach*¹⁷, a *Gwaith Teg Cymru*¹⁸.

¹¹ <https://llyw.cymru/strategaeth-ryngwladol-i-gymru>

¹² <https://llyw.cymru/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040>

¹³ <https://llyw.cymru/buddsoddi-yn-y-seilwaith>

¹⁴ <https://llyw.cymru/cynllun-cyflogadwyedd>

¹⁵ <https://llyw.cymru/cynigion-diwygiedig-ar-gyfer-cefnogi-ffermwyr-cymru-ar-ol-brexid>

¹⁶ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/strategaeth-arloesi-cymru.pdf>

¹⁷ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>

¹⁸ <https://llyw.cymru/gwaith-teg-cymru>

Ein Fframwaith ar Waith

Trosolwg

Bydd ein Fframwaith yn grymuso cymunedau o bob math i gydgyhyrchu atebion arloesol a chreadigol i'r heriau maen nhw'n eu hwynebu. Bydd yn cefnogi rhanbarthau a chymunedau ar hyd a lled Cymru, mewn ardaloedd trefol, gwledig, ôl-ddiwydiannol, dinesig ac arfordirol, i gydweithio i ddatblygu cynlluniau tymor hwy a fydd yn ceisio, er enghraifft, sbarduno sectorau sydd â photensial i dyfu a chreu swyddi, ac i roi'r sgiliau a'r mynediad i bobl ymgymryd â'r swyddi hyn. Bydd hefyd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau tymor byr fel y gallwn fwrw iddi'n syth gyda sylfaen gadarn o fuddsoddiadau integredig sydd wedi'u cynllunio'n dda.

Bydd y Fframwaith yn cyflawni'r pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi gan ganolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau, gan gynnwys dangosyddion perfformiad a thargedau perthnasol i werthuso llwyddiant¹⁹. Bydd yn ddigon hyblyg i ymateb ac addasu i dystiolaeth ac anghenion newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg. Gan ganolbwyntio'n glir ar y canlyniadau yr ydym am eu gweld yng Nghymru – ein nodau llesiant – gallwn ddiffinio "beth mae da yn ei olygu" o ran llwyddiant y buddsoddiad hwn yng Nghymru. Bydd ein mesurau monitro a gwerthuso ategol yn canolbwyntio ar yr hyn fydd yn gwneud gwahaniaeth, yn ôl y dystiolaeth, ar sail cyflawniadau dros y tymor hir.

Mae cyfle go iawn i wneud yn siŵr bod buddsoddiad economaidd yn ein rhanbarthau yn ychwanegu gwerth at ein blaenoriaethau cenedlaethol, gan wella'r canlyniadau mae pobl yn eu gweld heb ddyblygu gweithgareddau nac ymdrechion.

Yn ogystal, mae'r Fframwaith yn ei gwneud hi'n haws o lawer cysoni blaenoriaethau, gweithgareddau a buddsoddiadau. Mae'n hyrwyddo egwyddorion ar sail partneriaeth, a gweithio trawsffiniol a rhyngwladol, a bydd hynny'n annog ymdrechion cydlynedig i fanteisio ar gyllid o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Wrth wneud hynny, bydd yn helpu i gau'r bwlch hirdymor mewn cyllid o'r DU gyfan ar gyfer Cymru, megis ym maes seilwaith ac ymchwil a datblygu, ac yn helpu i gyflymu adferiad economaidd a hybu cydraddoldeb ledled Cymru.

Gan fod ein Fframwaith yn llywio ein dull gweithredu mewn perthynas â chyllid yn lle'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, gan gynnwys cyllid datblygu gwledig, bydd yn sicrhau bod anghenion yr economi wledig yn cael eu diwallu. Bydd gweithgareddau o dan arweiniad cymunedau gwledig, a gweithgareddau sy'n eu cynnwys mewn ffordd ymarferol, yn allweddol i wireddu blaenoriaethau yn y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol. Bydd hyn yn hwyluso cynlluniau a

¹⁹ Gan ddefnyddio data allweddol o'r Dangosyddion Cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): <https://llyw.cymru/sut-mae-mesur-cynnydd-cenedl-dangosyddion-cenedlaethol> - wrthi'n cael eu hadolygu yn dilyn ymgynghoriad: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-sut-fedrwn-ni-helpu-gweinidogion-cymru-i-fesur-cynnydd-y-genedl-cynigion-ar>

darpariaeth seiliedig ar leoedd mewn ymateb i anghenion a chyfleoedd a nodwyd yn lleol ar draws ardaloedd gwledig. Bydd darpariaeth hefyd ar gael i hwyluso ymatebion arloesol i anghenion a chyfleoedd penodol yr economi wledig a chymunedau gwledig, ynghyd â chyllid i brif ffrydio ac ehangu syniadau llwyddiannus.

Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi cymysgedd o ddulliau gweithredu a buddsoddiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Llywodraeth Cymru fydd yn arwain y gwaith cyffredinol o reoli'r Fframwaith hwn ac o asesu, cymeradwyo, a monitro'r buddsoddiadau cenedlaethol. Fodd bynnag, dymunwn wneud hynny mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ledled Cymru ac mewn rhanbarthau i helpu i sicrhau y gellir addasu ymyriadau cenedlaethol, fel buddsoddi mewn cymorth a sgiliau busnes, a rhywfaint o ymchwil ac arloesi, i anghenion penodol pob rhanbarth a'i sectorau.

Drwy integreiddio â pholisïau rhanbarthol Llywodraeth Cymru, ein nod yw y bydd y buddsoddiadau a ddarperir yn rhanbarthol yn cael eu cyd-drefnu a'u rheoli gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Bydd eu portffolio o brosiectau rhanbarthol yn cyd-fynd ag amcanion strategol y Fframwaith hwn yn ogystal â'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, sy'n rhan greiddiol o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer creu portffolio o brosiectau cenedlaethol.

Mae ein Fframwaith yn cynnwys cyfnod pontio, y bydd Llywodraeth Cymru yn ei reoli, gan ganiatáu digon o adnoddau ac amser i bob rhanbarth ddatblygu ei drefniadau rhanbarthol sy'n bodoli eisoes a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, gan adeiladu ar y capasiti a'r partneriaethau sydd ganddo yn barod i ymgymryd â chyfrifoldebau buddsoddi newydd yn effeithiol. Yn ystod y cyfnod pontio hwn, byddwn yn parhau i fanteisio ar y partneriaethau llwyddiannus, y strwythurau a'r fforymau sydd eisoes ar waith yn genedlaethol ac ar draws pob rhanbarth i ddarparu cyngor ar ddosbarthu cyllid rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r rhanbarthau ac yn chwarae rôl gydlynnydd i wneud yn siŵr bod y trefniadau llywodraethu priodol ar waith a bod y broses yn un syml.

Dull Amlhaenog: Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

Mae ein fframwaith yn hyblyg fel y gallwn fod yn greadigol ac yn uchelgeisiol o ran ein nodau, ac fel y gall buddsoddiadau addasu ac ymateb i gyfleoedd, anghenion a heriau ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol, y DU ac yn rhyngwladol.


Mae ein hymrwymiad i egwyddor sybsidiaredd yn golygu y dylai penderfyniadau a'r ddarpariaeth ddigwydd yn y pen draw ar y lefel agosaf at ddinasyddion, fel y bo'n briodol i'r ymyriad dan sylw. Er y bydd hyn yn golygu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel ranbarthol a lleol i raddau helaeth, bydd ystod o ymyriadau y mae'n well eu rheoli ar lefel Cymru gyfan. Bydd Gweinidogion Cymru yn gweithio gyda phartneriaid cyflawni fod yn atebol am sut mae eu hymyriadau'n cyfrannu at gyflawni'r nodau i Gymru gyfan.

Yng nghyd-destun y Fframwaith hwn, bydd Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer economi Cymru drwy swyddogaeth gydlynnydd gyffredinol a fydd yn canolbwyntio ar berfformiad a llywodraethu llwyddiannus, ar rannu'r arferion gorau, ac ar gydlyniaeth y Fframwaith yn ei gyfanrwydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn

cyflawni'r rôl hon mewn ffordd dryloyw ac yn sefydlu grŵp llywio neu bwyllgor rhanddeiliaid er mwyn ceisio cyngor, a sicrhau bod y cynnydd o ran cyflawni'r Fframwaith yn cael ei fonitro'n agos. Bydd cyfrifoldeb dros reoli a darparu buddsoddiadau'n rhanbarthol ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Fframwaith yn adnodd hollbwysig i sicrhau bod ymyriadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ategu ei gilydd a'u bod i gyd yn cyfrannu at weledigaeth gyffredin. Mae hynny'n rhan hanfodol o ddull seiliedig ar leoedd. Bydd prosiectau cenedlaethol a lleol fel ei gilydd yn cael eu cyd-drefnu ar sail economïau, anghenion a chyfleoedd unigryw ein rhanbarthau. Mae Siart 1 yn amlinellu'r cyfrifoldebau llywodraethu ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Siart 1: Model Llywodraethu



Buddsoddiadau cenedlaethol a rolau

Bydd angen rheoli rhai buddsoddiadau drwy'r Fframwaith hwn ar lefel genedlaethol; er enghraifft i fanteisio ar arbedion maint, i gyd-drefnu a chynyddu arloesedd ar draws rhwydwaith partneriaethau, neu i fanteisio ar arbenigedd technegol penodol nad yw ar gael ym mhob rhanbarth o reidrwydd. Gallai'r prif enghreifftiau gynnwys seilwaith trafnidiaeth cenedlaethol, cyllid cystadleuol y DU ac yn rhyngwladol ar gyfer ymchwil ac arloesi, band eang, cymorth i fusnesau bach a chanolig, entrepreneuriaeth, cymorth busnes ac allforio, ac ymyriadau cyflogadwyedd a sgiliau fel prentisiaethau.

Bydd angen i brosiectau cenedlaethol, yn eu hachos busnes ar gyfer cyllid, nodi sut byddant yn cyflawni i'r graddau mwyaf posibl tuag at amcanion strategol ein Fframwaith i gyd-fynd â blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, a amlinellir ar lefel genedlaethol. Hefyd, bydd angen i achosion busnes prosiectau cenedlaethol ddangos bod ymgysylltiad llawn wedi digwydd â chynulleidfaoedd cynrychioladol drwy gyfrwng y Cyd-bwyllgorau Corfforedig (neu drefniadau cydweithredol rhanbarthol sy'n bodoli eisoes a'r rhai sy'n dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod pontio), er mwyn i fuddsoddiadau gael eu cynllunio ar sail y bobl a'r lleoedd maen nhw'n bwriadu eu helpu, a'u bod yn canolbwyntio ar y bobl a'r lleoedd hyn.

Buddsoddiadau rhanbarthol a rolau

Mae grymuso rhanbarthau yng Nghymru drwy'r Fframwaith hwn yn golygu y bydd angen inni wneud pethau'n wahanol yn y dyfodol. Pan fydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'u sefydlu ac wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ac yn gynhwysol, gan adeiladu ar drefniadau rhanbarthol sy'n bodoli eisoes a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, nhw fydd y cyfrwng ar gyfer gyrru ein dull gweithredu rhanbarthol newydd. Nhw fydd y cyrff dynodedig gyda'r gallu cyfreithiol a'r capasiti gweithredu i weithio gyda phartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i flaenoriaethu portffolio rhanbarthol a chyson o ymyriadau er mwyn iddynt allu rhoi sylw i anghenion a chyfleoedd ar yr adeg gywir, a bodloni disgwyliadau a gofynion pobl a lleoedd yn y rhanbarth. Bydd angen datblygu'r portffolios rhanbarthol hyn er mwyn iddynt gyd-fynd â'r amcanion strategol y cytunwyd arnynt yn y Fframwaith hwn, y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a strategaethau rhanbarthol perthnasol eraill. Bydd gweithio rhanbarthol yn cael ei gefnogi gan becyn cymorth cenedlaethol ar gyfer llywodraethu, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu gyda rhanddeiliaid gan yr OECD, i sicrhau bod y capasiti a'r galluoegrwydd angenrheidiol yn bodoli ar lefel rhanbarthol a lleol.

Ni fydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gwbl weithredol pan fyddant yn cyfarfod am y tro cyntaf yn haf 2021. Bydd angen cyfnod pontio er mwyn iddynt allu adeiladu'r capasiti a'r galluoegrwydd sydd eu hangen i gyflawni eu rolau buddsoddi yn llwyddiannus ar lefel rhanbarthol a lleol. Mae'n bosibl y bydd hyd y cyfnod pontio'n amrywio rhwng rhanbarthau.

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd trefniadau rhanbarthol sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n dod i'r amlwg yn cael eu defnyddio a bydd y cyfrifoldeb am sefydlu, blaenoriaethu a chymeradwyo prosiectau rhanbarthol a lleol yn cynnwys y trefniadau hyn gan weithio gyda Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, dros amser bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am weithredu pob agwedd ar eu buddsoddiadau rhanbarthol, gan ystyried barn a sylwadau partneriaid a sectorau allweddol yn eu rhanbarthau drwy drefniadau sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n dod i'r amlwg. Yn unol â darpariaethau Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), yr aelodau etholaethol, h.y. arweinwyr awdurdodau lleol, o bob Cyd-bwyllgor fydd yn pennu'r trefniadau priodol ar gyfer ei ranbarth.

Yn ogystal â blaenoriaethu prosiectau, gallai rolau Cyd-bwyllgorau Corfforedig gynnwys arfarnu a chytuno ar brosiectau, monitro rheolaeth a pherfformiad prosiectau, cynnal gwerthusiadau o'u portffolios rhanbarthol fel rhan o'r swyddogaeth werthuso gyffredinol. I gefnogi'r gwaith hwn, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'r trefniadau rhanbarthol sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n dod i'r amlwg cyn y cyfnod pontio ac yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn troi ein hegwyddorion ar gyfer grymuso rhanbarthau yn ddewisiadau cyflawni manwl.

Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn pennu sut y byddant yn gweithio gyda'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol yn eu rhanbarth, yn unol â darpariaethau Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gweithio gyda Thimau Rhanbarthol Adrannol perthnasol yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu portffolios rhanbarthol o ymyriadau, gan helpu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r amcanion strategol y cytunwyd arnynt yn ein Fframwaith, yn rhoi gwerth am arian, heb ddyblygu gweithgareddau nac ymdrechion, a'u bod yn seiliedig ar weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gynhwysol²⁰.

Buddsoddiadau sy'n cael eu datblygu gan y gymuned

Mae ein Fframwaith hefyd yn annog datblygiad dan arweiniad y gymuned lle mae'r gweithgaredd yn digwydd. Yr egwyddorion sy'n sail i'r gweithgaredd hwn yw dull lleol ar sail ardal, dulliau cymryd rhan mewn partneriaeth a chydgynhyrchu, strategaethau amlsector integredig, arloesi, rhwydweithio, a chydweithredu.

Gellir ystyried datblygu lleol dan arweiniad y gymuned ym mhob un o bedwar maes blaenoriaeth ein Fframwaith lle gellir cyfrannu at ein canlyniadau. Mae hyn yn elfen bwysig o'n Fframwaith, nid yn unig oherwydd ei fod yn ychwanegu at werth y buddsoddiad yn syth (hy canlyniadau sy'n gysylltiedig â phrosiect), ond hefyd yr effaith a gaiff o ran meithrin gallu mewn ardaloedd lleol drwy adeiladu cyfalaf cymdeithasol a rhwydweithiau, datblygu trefniadau llywodraethu lleol, a gwella'r broses o gyflawni canlyniadau. Mae'r gwahaniaeth mae cymunedau'n gallu ei wneud pan fyddant yn dod ynghyd wedi'i weld yn glir yn ystod y pandemig Covid.

²⁰ Er enghraifft, mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fandad clir i yrru'r gwaith o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn ei flaen er mwyn darparu gwasanaetha mwy di-dor i ddinasyddion. Mae awdurdodau lleol yn aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac rydym yn disgwyl i'r trefniadau buddsoddi rhanbarthol newydd hyn weithio'n effeithiol gyda'n mecanweithiau iechyd a gofal cymdeithasol, sydd wedi ennill eu plwyf.

Mae datblygu dan arweiniad y gymuned yn debygol o ddigwydd mewn un ardal awdurdod lleol, ond mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i ehangu'r gweithgareddau hyn y tu hwnt i'r ardaloedd hynny. Byddwn yn annog y defnydd o'r model ledled Cymru, nid yn unig yn yr ardaloedd gwledig ac arfordirol sy'n cael eu cynnwys yn rhaglen LEADER Ewrop fel arfer. Yn yr un modd â chynigion cenedlaethol a rhanbarthol eraill sy'n ceisio cefnogaeth o dan ein Fframwaith, rhaid i weithgareddau lleol dan arweiniad y gymuned ddangos eu cyfraniad i nodau, allbynnau a chanlyniadau'r Fframwaith hwn, a rhaid gallu mesur eu hallbynnau a'u canlyniadau. Nid yw ein Fframwaith yn rhagnodi'r mathau o weithgareddau lleol dan arweiniad y gymuned a fydd yn cael eu hariannu, oherwydd mae'n rhaid i gymunedau allu bod yn arloesol a dylunio eu hatebion eu hunain i broblemau lleol.

Hefyd, mae'n rhaid i weithgareddau gyd-fynd â'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol perthnasol. I gefnogi'r gwaith hwn, byddwn yn ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid i droi ein hegwyddorion cynwysoldeb a chysylltedd gyda'r gymuned leol yn ddewisiadau cyflawni manwl. Rydym yn croesawu annibyniaeth a didueddrwydd yn y broses ymgysylltu hon, er mwyn rhoi hyder a sicrwydd i randdeiliaid bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed a'u hystyried.

Dylai'r dewisiadau o ran modelau cyflawni fod yn syml a dylent sicrhau nad oes lefelau diangen o fiwrocratiaeth, gan sicrhau llywodraethu ac atebolrwydd da o ran arian cyhoeddus. Bydd yn rhaid i'r goblygiadau cost o ran y dewisiadau cyflawni fod yn gymesur, yn fforddiadwy, a darparu'r gwerth gorau am arian.

Yn unol â'u rôl arwain gymunedol, eu rôl llunio lleoedd lleol a'u rolau mewn perthynas â'r Cynlluniau Llesiant Lleol fel y'u nodir yn Neddf LICD, rydym yn rhagweld rôl ganolog i awdurdodau lleol, gan weithio gyda'u cymunedau, i ddatblygu a gweithredu'r ymyriadau angenrheidiol. Bydd yr ymyriadau hyn yn chwarae rhan allweddol o ran adfer ac adnewyddu economi cymunedau lleol fel rhan o'r Fframwaith hwn.

Themâu Llorweddol

Yr hyn sy'n allweddol i lwyddiant buddsoddi rhanbarthol yw diwallu anghenion a darparu cyfleoedd economaidd a ffyniant ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, a sicrhau bod ein holl gymunedau yn elwa'n deg ar y buddion, a bod hynny i'w weld yn glir.

Mae'r themâu llorweddol cyfleoedd cyfartal (gan gynnwys y Gymraeg), prif ffrydio rhywedd, a datblygu cynaliadwy wedi bod yn nodweddion arloesol o gyllid yr UE yng Nghymru ac rydym am adeiladu ar y gwaith o integreiddio'r rhain fel rhan o'n Fframwaith.

Deddf LICD yw sylfaen y Fframwaith yn gyffredinol a'r themâu llorweddol yn benodol, wedi'i hatgyfnerthu gan Fesur y Gymraeg (2011)²¹. Mae'r Fframwaith yn cydnabod rôl hanfodol datblygu rhanbarthol er mwyn gwireddu'r nod cenedlaethol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y Fframwaith yn cefnogi ymyriadau i gynyddu cynaliadwyedd a ffyniant ardaloedd lle mae mwyafrif y boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, fel y nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011²², gyda'i gweledigaeth i Gymru fod yn un o'r gwledydd sy'n arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol. Bydd deddfu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol²³, y bydd Llywodraeth Cymru a Chyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig iddi fel ei gilydd, hefyd yn rhan allweddol o ystyried y themâu hyn er mwyn ein helpu i gyflawni ein hamcanion drwy gydnabod yr effeithiau go iawn ar ein pobl a'n cymunedau.

Mae gan Gymru ddeddfwriaeth gadarn o ran datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r Gymraeg ond ni fydd deddfwriaeth ar ei phen ei hun yn ddigon i greu ffyniant a mynd i'r afael ag anfanteision. Bydd y Fframwaith hwn yn mabwysiadu'r mesurau deddfwriaethol angenrheidiol ond hefyd yn darparu 'gwerth ychwanegol' prosiectau sy'n cefnogi'r themâu llorweddol.

Bydd y Fframwaith yn cefnogi dull integreiddio fesul achos sy'n gymesur ac yn ystyried anghenion ac amgylchiadau lleol. Mae cyd-drefnu'r themâu llorweddol ar lefel genedlaethol yn creu cyfleoedd i rannu gwybodaeth, adnoddau a dysgu, ac yn darparu cydlyniant a dull gweithredu cyson. Fodd bynnag, i gael yr effaith fwyaf bosibl, bydd y dull gweithredu ar gyfer y themâu llorweddol yn hyblyg er mwyn ystyried amrywiadau rhanbarthol a lleol.

Yn ogystal ag integreiddio â'r broses ddylunio a chyflawni, bydd angen i gynigion sefydliadau gynnwys gweithgareddau sy'n cyfrannu at y themâu llorweddol, a rhaid i Safonau'r Gymraeg fod yn rhan o bob prosiect a gynigir. Dylai'r gweithgareddau fod yn gymesur â math a maint y prosiect, ac ni fyddwn yn defnyddio dull 'un ateb yn addas i bawb'. Ar ben hynny, fel rhan o'i gynnig, rhaid i'r sefydliad nodi hyrwyddwr themâu llorweddol yn ei dîm, a fydd yn hyrwyddo'r gweithgaredd hwn ac yn monitro'r cyflawniad, y cynnydd, ac effaith y gweithgaredd themâu llorweddol ar ein cymunedau.

Gwaith Trawsffiniol a Rhyngwladol

Yn ôl ein profiad o ddarparu cyllid Ewropeaidd, un o'i nifer o agweddau gwerthfawr yw'r gallu i ddod ag amrywiaeth eang o bartneriaid ynghyd mewn gwledydd ac ar


²¹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh>

²² <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/made/welsh>

²³ Bydd y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn cychwyn ar 31 Mawrth 2020. Bydd yn gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i asesu effaith economaidd-gymdeithasol pob penderfyniad strategol. Y bwriad yw y bydd y Ddyletswydd hon yn berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, yn ogystal â chyrrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys y GIG.

draws gwledydd, i gydweithredu ac i ddenu cyllid a chyfleoedd. Mae ein *Strategaeth Ryngwladol* yn ymrwymo i barhau i edrych tuag allan at Ewrop a thu hwnt, ond yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid gartref a thramor i godi proffil Cymru ar lefel ryngwladol i helpu i'n gwneud yn fwy cystadleuol ac adnabyddus yn fyd-eang. Mae'r OECD hefyd wedi tynnu sylw at botensial cydgrynhoi economïau ar draws ffiniau.

Mae angen sicrhau newid sylweddol yn y gwaith trawsffiniol a rhyngwladol²⁴, a hynny wedi'i rymuso gan fuddsoddi rhanbarthol. Pan ddaw cyfleoedd i'n partneriaid yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol yn y dyfodol, bydd angen cysylltiadau a strwythurau cyllido arnom sy'n galluogi cydweithredu ac yn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i Gymru (gweler y darlun isod).



Ar sail y gwersi a ddysgwyd a'r arferion gorau, rydym yn credu mai'r ffordd orau o gynrychioli Cymru ar lefel ryngwladol fyddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid hyblyg ar lefel genedlaethol, yn unol ag uchelgais ein *Strategaeth Ryngwladol*. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r angen i ystyried heriau a chyfleoedd trawsffiniol a rhyngwladol hefyd ddylanwadu ar bob buddsoddiad o dan y Fframwaith hwn, boed ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol. Mae integreiddio a phartneriaeth hefyd yn egwyddorion allweddol o dan y Fframwaith hwn a bydd disgwyl i sefydliadau a gefnogir gyd-drefnu camau gweithredu lle bo'n bosibl, er mwyn codi proffil Cymru a sicrhau bod buddsoddiadau'n arwain at y buddion mwyaf posibl.


I wireddu'r uchelgais hon, bydd y Fframwaith yn cefnogi'r mecanweithiau canlynol:

- Llywodraeth Cymru i helpu rhanbarthau i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni gweithgareddau trawsffiniol a rhyngwladol, gan weithio mewn partneriaeth â chyrff rhyngwladol, genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Byddwn yn rheoli mecanweithiau cyllido perthnasol ar lefel genedlaethol, ond hefyd yn cefnogi sefydliadau rhanbarthol a lleol gyda'u huchelgeisiau trawsffiniol a rhyngwladol.

²⁴ Polisi Llywodraeth Cymru yw y dylai'r Llywodraethau Datganoledig barhau i gael mynediad at raglenni Ewropeaidd fel Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, Horizon Ewrop, ac Erasmus+. Mae'r gweithgareddau a gynigir o dan y Fframwaith hwn yn ategu buddion rhaglenni o'r fath, a bydd yn helpu i gynyddu'r buddion hynny i'r graddau mwyaf posibl.

- ‘Cronfa Hyblyg’ i fuddsoddi, yn gyflym, mewn cyfleoedd trawsffiniol a rhyngwladol ar raddfa fach ar draws sectorau, themâu ac ardaloedd daearyddol. Gallai hyn gynnwys cefnogi’r gwaith o ddatblygu cynigion cyllido, cyfleoedd rhwydweithio, cydweithrediadau unigol, a helpu sefydliadau i roi eu strategaethau rhyngwladol ar waith yn gyflymach.
- ‘Cronfa Hyblyg a Mwy’ i fuddsoddi mewn cyfleoedd strategol ar raddfa fawr, fel cynlluniau rhyngwladol amlochrog (ee syniadau sy’n dod i’r wyneb o ran Môr Iwerddon), cynlluniau dwyochrog â rhanbarthau/gwledydd blaenoriaeth, ac ymyriadau strategol mewn perthynas â chapasiti/galluogrwydd sectorau Cymru i ymgysylltu’n rhyngwladol.

Siart 2: Ein Model



* Mae'r Amcanion Strategol wedi'u rhestru yn yr Atodiad ar ddiwedd y ddogfen hon

Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer Buddsoddi

Mae ein pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi rhanbarthol wedi'u hanelu at sicrhau Cymru sy'n fwy ffyniannus, yn fwy cyfartal, ac yn fwy gwyrdd. Mae'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn yn rhan o'n rhaglen lywodraethu, a amlinellir yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* a'n hamcanion llesiant, yn ogystal â blaenoriaethau'r Prif Weinidog. Drwy ein cyllid buddsoddi rhanbarthol, byddwn yn sbarduno datblygiad economaidd rhanbarthol drwy ychwanegu gwerth at strategaethau presennol Llywodraeth Cymru a'i strategaethau yn y dyfodol. Rydym yn awyddus i rymuso rhanbarthau a chymunedau i ddatblygu eu portffolios eu hunain o gamau gweithredu sy'n cyd-fynd â'i gilydd er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau yn unol ag anghenion a chryfderau'r rhanbarthau a'r cymunedau hynny.

Pwrpas yr amcanion strategol ar gyfer y pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yw sicrhau bod buddsoddi rhanbarthol yn cyfrannu cymaint â phosibl at nodau llesiant Cymru. Maen nhw wedi cael eu pennu drwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar sail yr hyn sy'n gweithio yn ôl y dystiolaeth, i wneud yn siŵr ein bod yn mynd i'r afael ag anghenion ac yn sicrhau gwerth am arian, ac yn cyflawni'r effaith fwyaf bosibl i bobl, busnesau a chymunedau ar hyd a lled Cymru. Y pedwar maes blaenoriaeth a'r amcanion strategol yw'r adnodd pwysicaf un ar gyfer sicrhau bod ymdrechion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ategu ei gilydd ac yn cyfrannu at y gwaith o sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru.

Nid yw'r pedwar maes blaenoriaeth yn annibynnol – maen nhw'n rhan o gyfanwaith integredig. Fel y mae'r nodau llesiant, at ei gilydd, yn disgrifio elfennau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol o lesiant yng Nghymru, mae ein meysydd blaenoriaeth yn cydnabod bod angen cymunedau cryf o bobl a lleoedd ar fusnesau iddynt dynnu gweithlu o'u plith; bod cymunedau ac economïau yn rhan annatod o'r biosffer rydym yn byw ynddo, a bod hyn yn gallu golygu cyfleoedd ehangach i'n hamgylchedd, ein cyfalaf naturiol a'n gwasanaethau ecosystemau.

Wrth inni edrych tuag at y dyfodol, mae ein hamcanion strategol yn ystyried ffyniant a chynwysoldeb Cymru a'i rhanbarthau dros y tymor hir, yn ogystal ag ailadeiladu ar ôl Covid yn y tymor byr a'r tymor canolig. Mae'r achos dros ymyrryd wedi'i nodi mewn rhagor o fanylder yn ein dadansoddiad economaidd-gymdeithasol sy'n rhan o sylfaen dystiolaeth allweddol ar gyfer ein hymyriadau, ynghyd â'r holl waith a ddyluniwyd ar y cyd â'n partneriaid. Hefyd, mae ein dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn amlinellu ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein pedwar maes blaenoriaeth arfaethedig a bydd yn ein helpu i dargedu gweithgareddau o fewn y Fframwaith hwn, gyda'r dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn awgrymu bod y pandemig Covid wedi dwysáu'r anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes yn ein cymdeithas.

Mae'r pedwar maes blaenoriaeth hyn drwyddynt draw yn cydnabod effaith drawsnewidiol ymchwil a datblygu, arloesi, pŵer technoleg (gan gynnwys technoleg ddigidol), entrepreneuriaeth a chystadleurwydd byd-eang, a phwysigrwydd hybu cydraddoldeb a chynaliadwyedd.

Mae'r holl feysydd blaenoriaeth yn ategu ei gilydd. Er enghraifft, bydd cynyddu nifer y bobl mewn gwaith o ansawdd da hefyd yn helpu busnesau i ffynnu, ac yn cryfhau

cymunedau lleol. Hefyd, pan nad yw busnesau eisoes yn cynnal gweithgareddau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at yr agenda ddatgarboneiddio, bydd y cymorth a gynigir iddynt ar draws y Fframwaith, gan gynnwys drwy integreiddio'r themâu llorweddol, yn eu cynorthwyo i leihau eu hól troed carbon ar draws y gweithgareddau y maent yn eu cynnal.

Mae'r rhain yn faterion cymhleth sy'n gofyn am amryw o atebion er mwyn eu datrys yn effeithiol, ac mae cyfleoedd enfawr sy'n gofyn am weithio ar y cyd ac yn integredig os ydym am fanteisio arnynt mewn byd ar ôl Covid. Ni ddylai ffiniau gyfyngu ar y gwaith hwnnw, oherwydd gall cydweithio ar draws rhanbarthau a gwledydd sicrhau atebion go iawn i anghenion, cyfleoedd a heriau cyffredin.

O dan bob maes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi, rydym wedi trefnu rhywfaint o'r dystiolaeth allweddol a'r canlyniadau a ddymunir mewn tabl sy'n dangos damcaniaeth newid: beth all weithio er mwyn cyflawni ein hamcanion strategol. Rydym yn gwybod drwy ein tystiolaeth, ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gwersi a ddysgwyd at ba effeithiau rydym yn anelu, ac mae ein hamcanion strategol yn disgrifio hynny. Mae'r tablau damcaniaeth newid yn dangos sut y gallem gyflawni'r effeithiau hynny drwy ein buddsoddiadau.

I wybod sut mae cyflawni ein heffeithiau a ddymunir (yr amcanion strategol), mae angen inni ddeall y cyd-destun rydym yn gweithredu ynddo. Mae angen inni nodi pa adnoddau fydd gennym (y mewnbynnau)²⁵ a pha fath o weithgareddau sy'n newid yr amcanion a ddymunir. Mae deall pa weithgareddau a allai weithio yn golygu ein bod yn gallu nodi pa allbynnau sydd eu hangen o'r gweithgareddau hynny.

Bydd y cynlluniau buddsoddi cenedlaethol a rhanbarthol a gefnogir gan y Fframwaith yn nodi, mewn mwy o fanylder, y gweithgareddau penodol a fydd yn gweithio yn eu cyd-destun penodol i gyfrannu at yr amcanion strategol.

Damcaniaeth newid: rhagdybiaethau a'r cyd-destun cyffredin

Mae ein rhagdybiaethau yn adlewyrchu ein hegwyddorion a'r hyn mae ein gwaith ymgysylltu helaeth wedi dangos inni y mae pobl ei angen o'n buddsoddiadau rhanbarthol. Mae'r tablau ym mhob maes blaenoriaeth yn nodi asesiad dangosol o beth fydd yn gweithio i gyflawni ein hamcanion strategol yn seiliedig ar gyllid amlflwydd sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, a'n hegwyddorion dylunio, a ddisgrifiwyd yn gynharach²⁶. Dangosol yw'r gweithgareddau a'r allbynnau yn y tablau hyn.

Drwy ddatblygu polisi i Gymru ar gyfer buddsoddi rhanbarthol, mae gennym gyfle i integreiddio'n well â pholisi cenedlaethol Cymru. Mae ein *Cynllun Cyflogadwyedd*,

²⁵ Gan ddibynnu ar y maes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi, gallai mewnbynnau ychwanegol gynnwys, er enghraifft, y rhai sy'n deillio o Fargeinion Dinesig a Thwf; Innovate UK; Banc Datblygu Cymru; buddsoddiad o'r sector preifat; Cronfa'r Economi Gylchol ar gyfer busnesau ac yn y blaen.

²⁶ Gweler tt.3-4

ein *Strategaeth Ryngwladol*, ein *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru*, *Gwaith Teg Cymru*, ein *Strategaeth Arloesi*, ein *Cynllun Gweithredu ar yr Economi*, ein cynlluniau i ailadeiladu'r economi ar ôl y pandemig Covid, ein cynllun gweithredu ar allforio sydd yn yr arfaeth, *Cymru 4.0: Cyflawni Trawsnewidiad Economaidd ar Gyfer Gwell Dyfodol Gwaith*²⁷, a *Digidol 2030: fframwaith strategol*²⁸, ymysg eraill, i gyd yn rhan o'r cyd-destun cyffredin ar gyfer sut rydym wedi dylunio ein meysydd blaenoriaeth i ychwanegu gwerth ac i'w gwneud hi'n bosibl mynd i'r afael â diffygion yn y farchnad ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

Yn yr un modd, mae'r mewnbynnau cyffredin y gellir eu defnyddio i gyflawni canlyniadau yn bortffolio o brosiectau cenedlaethol (lle mae arbedion maint a chysondeb cenedlaethol ar draws rhanbarthau yn bwysicach), a phortffolios o brosiectau rhanbarthol (lle mae cyflawni yn agosach i lefel y dinasyddion er mwyn diwallu anghenion a manteisio ar gyfleoedd rhanbarthol yn bwysicach). Mae rhai mewnbynnau eraill yn fwy priodol i rai meysydd blaenoriaeth nag eraill – mae'r awgrymiadau ar gyfer y rhain wedi'u nodi yn erbyn pob tabl yn yr adrannau isod.

Busnesau Mwy Cynhyrchiol a Chystadleuol

Rydym yn awyddus i sbarduno adferiad a ffyniant drwy gefnogi entrepreneuriaid, busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli'n barod i greu a chadw swyddi cynaliadwy sy'n adlewyrchu egwyddorion *Gwaith Teg Cymru*. Byddwn yn helpu busnesau i fanteisio ar gyfleoedd i dyfu ac yn cryfhau cynhyrchiant a chystadleurwydd busnesau a mentrau cymdeithasol o bob maint, yn enwedig busnesau o faint micro i ganolig. Mae hyn yn cynnwys cefnogi busnesau gyda'u hymdrechion i greu neu wella eu cyfran o'r farchnad allforio²⁹.

Wrth inni ailadeiladu ar ôl y pandemig Covid³⁰, byddwn yn ceisio symud i fwrdd oddi wrth ymateb i newidiadau mewn technoleg, tuag at agwedd fwy rhagweithiol at y broses yng Nghymru o bontio i'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, drwy gyd-ddylunio ymyriadau drwy ddull gweithredu sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid. Bydd hyn yn cefnogi'r uchelgeisiau yn ein *Strategaeth Arloesi* o ran cyflymu ein buddsoddiadau mewn ymchwil ac arloesi sydd angen 'cyfran deg' o gefnogaeth ategol gan Lywodraeth y DU ac asiantaethau eraill yn y DU, gan gynnwys UK

²⁷ <https://llyw.cymru/adolygiad-o-arloesi-digidol-ar-gyfer-yr-economi-dyfodol-gwaith-yng-nghymru>

²⁸ <https://llyw.cymru/digidol-2030-fframwaith-strategol>

²⁹ Yn unol â strategaeth allforio Llywodraeth Cymru. Mae ymatebion i arolwg busnes coronafeirws yr ONS yn awgrymu bod yr effaith ar fasnach yn dal i gael ei theimlo yn y DU o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Gweler ONS (2020, Medi 30). GDP quarterly national accounts, UK: April to June 2020. Cyrchwyd o <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/quarterlynationalaccounts/apriltojune2020>

³⁰ Yn ystod dau chwarter cyntaf 2020, crebachodd economi'r DU, sy'n golygu ei bod wedi mynd i mewn i ddirwasgiad. Gostyngodd cynnyrch domestig gros y DU 2.5% yn ystod y chwarter cyntaf, a dilynwyd hynny â'r gostyngiad cyflymaf erioed yn ystod yr ail chwarter, sef 19.8%. Roedd hyn yn adlewyrchu'r effaith yr oedd y cyfyngiadau a gyflwynwyd i reoli pandemig y coronafeirws wedi'i chael ar yr economi.

Research and Innovation (UKRI)³¹. Bydd hyn yn cyfrannu at wariant uwch mewn ymchwil ac arloesi yn y sectorau preifat a chyhoeddus, ac yn datblygu cydnabyddiaeth ryngwladol i wyddoniaeth yng Nghymru³². Byddwn yn adeiladu capasiti newydd yng ngalluogrwydd craidd Cymru mewn Technolegau Galluogi Allweddol³³, ym meysydd Seiberddiogelwch, Deallusrwydd Artiffisial, a Data. Bydd buddsoddiadau presennol a buddsoddiadau yn y dyfodol mewn gweithgynhyrchu mwy traddodiadol yn dal yn chwarae rôl bwysig, fel y nodir yn ein dogfen ymgynghori, *Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru: Fframwaith Gweithredu*³⁴.

Mae gan Ymchwil, Datblygu ac Arloesi rôl hollbwysig. Mae gwell cronfeydd adnoddau arbenigol, rhannu gwybodaeth a chydweithio i gydgrynhoi'r cynnig i ddiwydiant ac yn rhyngwladol i gyd yn gamau rydym am eu hannog er mwyn hyrwyddo cystadleurwydd ym maes ymchwil, datblygu ac arloesi, a chaniatáu i sefydliadau integreiddio darpariaeth o dan y Fframwaith â darpariaeth yn erbyn Map Llwybr Ymchwil a Datblygu y DU a'r ymrwymiad i wario 2.4% o wariant cenedlaethol erbyn 2027³⁵.

Bydd hi'n bwysig cefnogi cysylltedd a seilwaith digidol wrth ymateb i gyfleoedd awtomeiddio, i sicrhau bod pobl â'r sgiliau priodol ar gael i ymgymryd â rolau newydd mewn meysydd gwaith newydd. Byddwn yn parhau â'n hymdrechion o ran Arbenigo Craff i sicrhau bod y strategaeth hon yn cael ei datblygu mewn modd cynhwysol a bod y ddarpariaeth yn ymatebol i anghenion busnesau, prifysgolion a sefydliadau ymchwil eraill. Bydd angen inni flaenoriaethu'r meysydd hynny lle mae Cymru wir yn gallu cystadlu ar lwyfan byd-eang.

Mae hyn yn cynnwys yr angen i sgiliau uwch weithredu technolegau a modelau busnes newydd, er enghraifft drwy ganolfannau hyfforddi at ddoethuriaeth ryngwladol neu ddiwydiannol³⁶. Efallai y bydd cyfleoedd ar yr holl lefelau sgiliau ar gyfer profiadau i ddysgwyr sy'n cynnwys cyfnewid rhyngwladol a'r arferion gorau.

Wrth i'r Cyfnod Pontio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ddod i ben, rydym am annog cwmnïau i allforio eu cynnyrch a'u gwasanaethau, ac adeiladu capasiti ar gyfer

³¹ <https://www.ukri.org/>

³² *Strength in Diversity*, Graeme Reid ar gyfer Prifysgolion Cymru, mis Hydref 2020: <http://www.uniswales.ac.uk/cy/publication/strength-in-diversity-professor-graeme-reid/>

³³ <https://ec.europa.eu/programmes/horizon2020/en/area/key-enabling-technologies>

³⁴ <https://llyw.cymru/dyfodol-gweithgynhyrchu-i-gymru-fframwaith-gweithredu>

³⁵ <https://www.gov.uk/government/publications/uk-research-and-development-roadmap/uk-research-and-development-roadmap#levelling-up-rd-across-the-uk>

³⁶ Roedd un o'r elfennau drwy raglen gyntaf Sêr Cymru yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer datblygu tri rhwydwaith ymchwil cenedlaethol ym mhob un o'r tri maes 'Her Fawr': Gwyddorau Bywyd ac Iechyd; Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd; ac Uwch Beirianeg a Deunyddiau. Cafodd yr 'Heriau Mawr' eu nodi oherwydd eu cryfder mewn adrannau academiaidd yng Nghymru, yn ogystal â'r potensial i fusnesau yng Nghymru ac i Gymru fanteisio'n fasnachol ar eu canlyniadau ymchwil. Cynhaliodd y tri rhwydwaith amrywiaeth o weithgareddau Cymru gyfan fel darparu cyllid i gynlluniau hyfforddi at ddoethuriaeth ar raddfa fawr, cefnogaeth i ymchwilwyr ôl-ddoethurol, a gweithgareddau ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, yn enwedig y rhai yn y diwydiant.

hynny. Y tu allan i undeb tollau'r UE, bydd angen systemau a phrosesau newydd ar fusnesau er mwyn parhau i fasnachu â'r UE, a bydd angen cymorth arnynt i helpu i hwyluso'r gofynion hyn ac ymuno â marchnadoedd newydd drwy fynd i'r afael â'r rhwystrau i'r farchnad. Byddwn yn ategu cymorth presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer y gweithgaredd hwn lle gallwn ychwanegu gwerth.

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Cyn y pandemig Covid, roedd microfusnesau a busnesau bach yn arbennig wedi gweld twf mawr o ran cyflogaeth am dros ddegawd. Wrth gymharu â gweddill y DU, mae'r gyfran a gyflogir gan ficrofusnesau a chwmnïau bach yn uwch yng Nghymru, ac rydym am i'r microfusnesau a'r cwmnïau bach hynny ddatblygu'n gwmnïau mawr a chanolig. Mae cwmnïau canolig eu maint yn perfformio'n eithaf da hefyd, gyda chynnydd o ran trosiant, cyflogaeth a nifer y cwmnïau. Mae gan Gymru nifer mawr o ficrofusnesau, ond mae nifer y busnesau newydd sy'n gymharol i faint y boblogaeth yn is yng Nghymru nag yng ngweddill y DU.

Mae perfformiad gwael o ran cynhyrchiant wedi cael ei nodi fel problem sylweddol yn y DU, ac mae hynny'n deillio o ddiffyg buddsoddi mewn busnes, ymchwil, datblygu ac arloesi, rheoli ansawdd yn wael, a lefelau sgiliau is. Ar draws y DU, ers yr argyfwng ariannol, mae twf cynhyrchiant dros y degawd diwethaf wedi bod yn gyfyngedig. Mae mwy a mwy o gwmnïau â lefelau cynhyrchiant isel, ac mae hynny'n arwain at gyfyngu cynhyrchiant yn gyffredinol a thanberfformiad cymharol mewn sectorau lle gallai'r lefelau cynhyrchiant fod yn uwch. Mae hefyd yn arafu'r gyfradd arloesi ac yn rhwystro lledaeniad o gwmnïau blaenllaw i'r boblogaeth ehangach o gwmnïau. Bydd gwella gallu cwmnïau i ddefnyddio arloesedd yn mynd i'r afael â rhwystr allweddol a all eu hatal rhag mabwysiadu technolegau newydd a dod â nhw i'r farchnad³⁷.

Mae sylfaen ymchwil ac arloesi Cymru yn ased cenedlaethol, gan gyflawni buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac iechyd i Gymru a chydweithredwyr o gwmpas y byd. Fodd bynnag, mae sylfaen ymchwil fach ond effeithiol Cymru yn fregus o ran pwysau byd-eang cystadleuol a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd. Ar ôl Cyfnod Pontio'r UE, bydd angen inni sicrhau ein bod yn cael y canlyniadau gorau posibl o'r math o ymchwil ac arloesi uchel eu heffaith, sy'n cefnogi economi Cymru. Bydd hefyd angen inni fod yn effro i bwysau newydd y byddwn yn eu hwynebu y tu allan i'r UE.

Ein nod

Rydym yn awyddus i gynyddu nifer a maint y mentrau a'r busnesau newydd (gan gynnwys gwasanaethau, busnesau cymdeithasol, a'r rheini sy'n rhan o'r economi sylfaenol) ledled Cymru. Mae'r maes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi 'Cefnogi'r

³⁷ Riom, C., a Valero, A. (2020). The Business Response to Covid-19: the CEP-CBI survey on technology adoption. Y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd. Nodyn: Cynhaliwyd arolwg y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd ym mis Gorffennaf 2020.

broses o bontio i economi ddi-garbon' yn cynnig cyfleoedd, er enghraifft, mewn perthynas ag ynni glân – gan leihau ôl troed y ffordd o ddefnyddio'r ynni hwnnw yn ogystal â sut mae'n cael ei gynhyrchu. Bydd hyn yn helpu i greu a chadw swyddi cynaliadwy a fydd nid yn unig yn cyfrannu at gynhyrchiant a ffyniant mewn ffordd gynaliadwy, ond at waith teg hefyd. Rydym hefyd am annog pobl i greu mwy o fentrau sy'n eiddo i bobl leol ac yn cyflogi staff lleol, a hybu cynaliadwyedd y mentrau hynny. Mae cwmnïau sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru yn fuddiol i iechyd tymor hir economi Cymru.

Mae sector prifysgolion ac arloesi cryf a chystadleuol sydd â chysylltiadau da â sector cyhoeddus Cymru yn ased mawr i gymunedau ac i'r economi leol. Rydym yn awyddus i bob rhan o Gymru elwa ar y buddion, gan adeiladu ar ein llwyddiant o ran gweithredu ein cyfres Arbenigo Craff³⁸ i nodi meysydd ym mhob cwr o Gymru lle ceir mantais gymharol. Nod hyn fyddai denu mewnfuddsoddiad, cystadlu am gyllid ymchwil, a sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu rhannu fwyfwy ymhlith mentrau. Bydd hyn yn cefnogi twf busnesau Cymru o ran masnachu a chystadlu'n rhyngwladol, sy'n ysgogi ac yn mynnu cynhyrchiant uwch. Byddwn yn targedu cymorth lle nodir diffygion penodol yn y farchnad, gan gydnabod bod gan bob sector wahanol anghenion busnes.

Amcanion Strategol

- 1. Cefnogi'r gwaith o greu a chadw swyddi cynaliadwy sy'n bodloni'r diffiniad o waith teg fel y'i nodir yn *Gwaith Teg Cymru*.**
- 2. Cefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol, olyniaeth busnesau cynhenid yn ogystal â chadw'r busnesau hynny, gyda phwyslais penodol ar ddatblygu i fod yn gwmnïau cynhyrchiol canolog eu maint sydd â'u gwreiddiau yn eu cymunedau lleol.**
- 3. Helpu'r gweithlu yng Nghymru i ddatblygu eu sgiliau a chael hyfforddiant er mwyn sicrhau datblygiad, yn enwedig y sgiliau i bontio i dechnoleg Diwydiant 4.0 a 5.0.**
- 4. Ehangu'r capasiti o ran ymchwil, datblygu, cyfnewid gwybodaeth ac arloesi effeithiol mewn busnesau a sefydliadau ymchwil yng Nghymru, gan anelu at fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat cystadleuol cynyddol a llwyddo i drosi ymchwil yn gynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd a gwell.**
- 5. Helpu busnesau i gymryd rhan mewn rhwydweithiau arferion gorau yn y DU/yn rhyngwladol os ydynt yn gysylltiedig â gwell cynhyrchiant a chystadleurwydd.**
- 6. Sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn gallu cael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt er mwyn ffynnu a datblygu, gan gynnwys dewisiadau cyllid ad-daladwy lle bo'n briodol, a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd trawsffiniol a rhyngwladol.**

³⁸ <http://www.oecd.org/sti/inno/smartspecialisation.htm>

Tabl 1: Busnesau Mwy Cynhyrchiol a Chystadleuol – Damcaniaeth Newid

Gweithgareddau ⇨	Allbynnau ⇨	Canlyniadau ac Effeithiau
Mathau bras o weithgareddau i'w hariannu: • Busnesau newydd, twf, cymorth a chyingor busnes • Creu sbardunau ar gyfer galw i hybu twf busnesau, cynhyrchiant uwch a swyddi • Creu a chadw swyddi • Datblygu'r gweithlu, gan gynnwys uwchsgilio ac ailsigilio. • Datblygu sgiliau arwain perchnogion a rheolwyr busnes i'w galluogi i wella prosesau busnes ac arferion rheoli. • Ymchwil, datblygu, cyfnewid gwybodaeth, cymorth arloesi, cydweithredu ac adeiladu capasiti • Canolfannau hyfforddi at ddoethuriaeth • Sicrhau rhagor o adnoddau ymchwil, datblygu ac arloesi o'r DU a thu hwnt i Gymru • Cynyddu capasiti ymchwil a lefel y cydweithredu rhwng cwmnïau i ledaenu/rhannu'r arferion gorau.	Er enghraifft, gallai'r allbynnau gynnwys: • Rhagor o fusnesau newydd o'i gymharu â maint poblogaeth Cymru • Rhagor o gyngor busnes cynhwysol a mentora i fusnesau newydd a busnesau sy'n ehangu • Rhagor o bobl mewn cyflogaeth gynaliadwy yng Nghymru • Rhagor o weithwyr wedi'u huwchsgilio yn y gweithlu er mwyn ennill sgiliau ar gyfer y dyfodol • Bodloni rhagor o ofynion sgiliau cyflogwyr, gan sicrhau bod sgiliau'n cael eu targedu at feysydd lle mae diffygion go iawn yn y farchnad • Rhagor o fusnesau bach yng Nghymru drwy dyfu a datblygu microfusnesau • Rhagor o fusnesau canolig yng Nghymru drwy dyfu a datblygu busnesau bach • Rhagor o fusnesau yn allforio eu cynnyrch/gwasanaethau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngwladol, yn unol â Chynllun	Amcanion strategol sy'n cyfrannu at fusnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol: 1. Cefnogi'r gwaith o greu a chadw swyddi cynaliadwy sy'n bodloni'r diffiniad o waith teg yn Gwaith Teg Cymru. 2. Cefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol ac olyniaeth busnesau cynhenid yn ogystal â chadw'r busnesau hynny, gan gynnwys y rheini yn yr economi sylfaenol sy'n rhoi pwyslais penodol ar ddatblygu i fod yn gwmnïau cynhyrchiol canolig eu maint sydd â'u gwreiddiau yn eu cymunedau lleol. 3. Helpu'r gweithlu yng Nghymru i ddatblygu eu sgiliau a chael hyfforddiant er mwyn sicrhau datblygiad, gan gynnwys y sgiliau i bontio i dechnoleg Diwydiant 4.0 a 5.0. 4. Ehangu'r capasiti o ran ymchwil, datblygu, cyfnewid gwybodaeth ac arloesi effeithiol mewn busnesau a sefydliadau ymchwil yng Nghymru, gan anelu at fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat cystadleuol cynyddol a llwyddo

• Mynediad at gyllid drwy grantiau a chyllid ad-daladwy • Cynyddu nifer y busnesau sy'n allforio eu cynnyrch/gwasanaethau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngwladol. • Helpu busnesau i ddeall a pharatoi dogfennaeth tollau a gweithdrefnau tariffau, yn benodol ar ôl gadael yr UE, lle ategir cyllid craidd Llywodraeth Cymru.	Gweithredu Allforio Llywodraeth Cymru, sydd yn yr arfaeth • Rhagor o gydweithredu a throsglwyddo technoleg o sefydliadau addysg uwch • Rhagor o gymhellion i fusnesau ddefnyddio cynnyrch arloesol sy'n newydd ar y farchnad ac sydd wedi'u gwella • Gwariant uwch y pen ar ymchwil a datblygu yng Nghymru • Cyfradd uwch o adeiladu capasiti mewn sefydliadau ymchwil a datblygu er mwyn caniatáu iddynt gystadlu gartref ac yn rhyngwladol • Rhagor o arbenigwyr technoleg ar gyfer y trawsnewid digidol, cymunedau iach, ac economi ddi-garbon • Sicrhau cwantwm uwch o gyllid ymchwil a datblygu i Gymru • Creu pecyn cyllid wedi'i deilwra ar gyfer buddsoddi mewn sectorau allweddol, yr economi sylfaen a'r economi gylchol, ac ardaloedd daearyddol penodol	i drosi ymchwil yn gynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd a gwell. 5. Helpu busnesau i gymryd rhan mewn rhwydweithiau arferion gorau yn y DU/yn rhyngwladol os ydynt yn gysylltiedig â gwell cynhyrchiant a chystadleurwydd. 6. Cyflwyno ffyrdd cynaliadwy o sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn gallu cael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt er mwyn ffynnu a datblygu yng Nghymru, a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd trawsffiniol a rhyngwladol. Gall prosiectau gyfrannu at un neu fwy o'r uchod, ac at ganlyniadau ar draws Meysydd Blaenoriaeth eraill a'r Themâu Llorweddol cyfleoedd cyfartal, prif ffrydio rhywedd, datblygu cynaliadwy, a'r Gymraeg.
---	--	---

Lleihau'r Ffactorau sy'n arwain at Anghydraddoldeb Economaidd

Rydym am i gynifer o bobl â phosibl allu cymryd rhan mewn gwaith cynaliadwy o ansawdd da, a chael cyflog teg am y gwaith hwnnw, gan sicrhau bod hyn yn cael ei rannu'n deg ar draws ardaloedd daearyddol a gwahanol ddemograffeg, yn enwedig ymysg grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r dystiolaeth³⁹ yn dangos bod anghydraddoldeb yn cael effaith niweidiol ar dwf economaidd a chanlyniadau cymdeithasol. Yn y tymor byr, bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio ar gefnogi'r rhai y mae effaith economaidd y pandemig Covid wedi'u taro waethaf, yn enwedig pobl ifanc, y rhai mewn cyflogaeth incwm isel ac ansicr, merched, grwpiau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), a phobl anabl.

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Mae ein Cynllun Cyflogadwyedd yn amlinellu ein huchelgeisiau i helpu pobl i gael gwaith heddiw, ac i baratoi'r gweithlu ar gyfer heriau'r dyfodol.

Ar ddiwedd 2019, roedd Cymru'n ymfalchïo yn y cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd isaf ers datganoli, ac mae cyfran y bobl o oedran gweithio heb gymwysterau wedi lleihau'n sylweddol, a nifer y bobl sy'n meddu ar gymwysterau lefel uwch yn gwella'n barhaus.

Serch hynny, mae Cymru'n dal ar ei hôl hi o ran cyflogau, cynhyrchiant ac ennill cymwysterau ar bob lefel. Mae Cymru'n wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i'r pandemig Covid a diwedd Cyfnod Pontio'r UE.

Mae'n ymddangos bod effaith y pandemig wedi cyflymu'r tueddiadau strwythurol o ran awtomeiddio, datgarboneiddio ac effaith poblogaeth sy'n heneiddio, a'i bod yn bygwth cildroi'r cynnydd sylweddol a wnaed dros y degawd diwethaf o ran lleihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru. Mae wedi cael effaith fwy difrifol ar addysg pobl ifanc o deuluoedd tlodach a allai yn ei dro leihau symudedd cymdeithasol⁴⁰ a chynyddu dyledion aelwydydd di-waith ac aelwydydd incwm isel a chanolig⁴¹.

Mae diweithdra, tangyflogaeth ac anweithgarwch economaidd yn dal yn ffactorau arwyddocaol sy'n achosi anghydraddoldeb, a namau/salwch⁴² a gofalu am y

³⁹ Er enghraifft, gan yr OECD <http://www.oecd.org/els/soc/trends-in-income-inequality-and-its-impact-on-economic-growth-SEM-WP163.pdf>

⁴⁰ Major, L. E., Eyles, A., a Machin, S. (2020). Generation COVID: Emerging Work and Education Inequalities. Y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd.

⁴¹ Brewer, M., Corlett, A., Handscomb, K., McCurdy, C., a Tomlinson, D. (2020). The Living Standards Audit 2020. Resolution Foundation.

⁴² Mae pobl anabl yn cyfrif am 45% (200,000) o'r grŵp economaidd anweithgar; mae 31% (18,000) o bobl ddi-waith yng Nghymru yn bobl anabl; ac mae tua 48,000 o bobl anabl economaidd anweithgar naill ai'n chwilio am waith, neu'n dymuno gweithio er nad ydynt wrthi'n chwilio am waith. Mae'r cyfraddau tlodi yn sylweddol uwch mewn aelwydydd lle nad oes oedolyn yn gweithio ac mae

teulu/cartref yw'r prif resymau nad yw oedolion yng Nghymru yn gweithio. Hefyd, mae tystiolaeth gref bod cyfnodau o anweithgarwch economaidd a diweithdra yn gynnwys mewn bywyd gwaith yn gallu cael effaith niweidiol ar amrywiaeth o ganlyniadau yn nes ymlaen mewn bywyd. Mae cyfnodau dros flwyddyn o hyd yn arbennig o niweidiol i bobl ifanc. Ar y llaw arall, mae gweithwyr hŷn yn wynebu rhwystrau sylweddol i ddychwelyd i'r gweithle ar ôl colli swydd.

Yn ogystal â'r heriau sy'n ein hwynebu o ran lleihau diweithdra o ganlyniad i'r pandemig, mae cyfleoedd cyflogaeth sy'n debygol o fod yn fwy parhaol eu natur, fel y twf a ragwelir mewn gwasanaethau 'gweithwyr allweddol', er enghraifft yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r economi sylfaenol.

Mae unigolion â chymwysterau a sgiliau lefel uwch yn fwy tebygol o fod mewn swydd barhaol, o gael cyflog uwch ac o gynyddu eu cyflog – yn enwedig ymysg yr unigolion hynny o ardaloedd difreintiedig. Byddai Cymru'n elwa'n fawr ar gynyddu ein cymorth ar gyfer sgiliau sylfaenol a digidol⁴³, er mwyn cyflenwi unigolion i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Mae'r rheini sydd wedi gwneud prentisiaethau yn tueddu i fod yn fwy tebygol o fod mewn swydd, ac mae'n ymddangos bod prentisiaethau ar lefel uwch yn cynnig llawer mwy o fuddion i'r farchnad lafur.

Mae gwahaniaethau mewn tâl yn lleihau enillion oes ac yn effeithio ar bensiynau – achos sylweddol o dlodi yn nes ymlaen mewn bywyd. Er bod llawer o fylchau mewn cyflogau yn lleihau'n raddol dros amser, mae mesurau cyni a'r newidiadau i'r farchnad lafur (ee torri swyddi a rhewi cyflogau yn y sector cyhoeddus, cynyddu'r defnydd o gontractau dim oriau yn y sector preifat) wedi cyfrannu at y gwahaniaethau cynyddol mewn tâl yn y tymor byr. Er enghraifft, amcangyfrifir mai 14% yw'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru, a'i fod yn 9% i bobl anabl; mae'r darlun yn llai cyson mewn cymunedau BAME⁴⁴.

Mae costau hanfodol cynyddol yn broblem i lawer o bobl hefyd. Mae grwpiau allweddol, y mae'n ymddangos eu bod yn wynebu mwy o risg o dlodi, yn debygol o wynebu costau ychwanegol sy'n cael effaith anghymesur arnynt, fel pobl anabl, pobl â chyfrifoldebau gofalu, a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae pobl ar incymau isel yn llai tebygol o fod yn 'ddefnyddwyr gweithredol', o newid cyflenwyr ac o chwilio am fargeinion gwell. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg mynediad at 'nwyddau galluogi' sy'n rhoi mantais i ddefnyddwyr, fel cyfrif banc neu fynediad at rhyngwrdd.⁴⁵ Hefyd, mae tystiolaeth bod costau tai yn cyfrannu'n sylweddol at gyfraddau tlodi ymysg pobl ifanc, ac mae 'premiwm tlodi', lle mae cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau yn costio mwy i aelwydydd tlotach.

cyfraddau tlodi aelwydydd heb waith wedi bod yn codi yng Nghymru, er eu bod wedi lleihau yn y DU yn gyffredinol.

⁴³ Mae cyfran y bobl sydd â sgiliau sylfaen a sgiliau digidol sylfaenol am oes yng Nghymru yn sylweddol is na chyfartaledd y DU.

⁴⁴ <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-2018-is-wales-fairer-welsh.pdf>

⁴⁵ <https://www.jrf.org.uk/report/poverty-and-cost-living>

Ein nod

Rydym yn awyddus i wneud popeth y gallwn ni i leihau diweithdra a rhoi'r cyfle gorau i bawb ganfod a chadw gwaith teilwng sydd â rhagolygon dros y tymor hir, ac i wneud y gweithlu'n fwy hyblyg drwy ddarparu cyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau ac ennill rhai newydd. Byddwn yn sicrhau mynediad at addysg a hyfforddiant i bobl ifanc, er mwyn datblygu sgiliau a gwybodaeth i'w gwneud yn fwy parod at waith.

I osgoi diweithdra uchel, parhaus, bydd hi'n hollbwysig helpu pobl â'r sgiliau i ddychwelyd i'r gwaith neu i fynd ar drywydd hunangyflogaeth yn gyflym, a bod pobl ifanc yn cael cymorth i fynd ar drywydd dewisiadau eraill ar gyfer parhau i ddysgu. Rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda sefydliadau fel Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU ar ddarparu cymorth cyflogaeth/cyflogadwyedd a sgiliau, gydag ymgysylltiad ac integreiddio gweithredol sylweddol ar lawr gwlad, a bydd hyn yn parhau. Hefyd, bydd angen inni ddefnyddio'r seilwaith sy'n bodoli eisoes ar gyfer dysgu yn y gymuned a chyflawni cyflogadwyedd lle bo'n bosibl.

Bydd lleihau anweithgarwch economaidd yn golygu codi dyheadau a chyfleoedd ymysg y bobl ifanc hynny y gallai diweithdra eisoes fod wedi ymwreiddio yn eu teulu. Bydd cyflawni canlyniadau meddal a'u heffeithiau dilynol yr un mor bwysig, er mwyn i grwpiau ar y cyrion agosáu at y farchnad lafur drwy fynd ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Gall gwirfoddoli a mentrau cymdeithasol hefyd gynnig llwybrau pwysig i wella sgiliau a magu profiad, a all arwain at gyfraddau uwch o weithgarwch economaidd.

Mae gweithlu cynhyrchiol hefyd yn allweddol o ran cystadleurwydd economaidd Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol, ac ar gyfer adeiladu cymdeithas iachach. Yr her fydd cydbwysio mesurau ailadeiladu'r economi yn y tymor byr, a pharhau â'r ymdrechion dros y tymor hir i gynyddu lefelau cyfranogiad yn y farchnad lafur. Rydym am gynyddu ansawdd cyflogaeth a chydaddoldeb mynediad at gyflogaeth.

Yn yr un modd, mae angen gweithlu symudol a hyblyg arnom er mwyn ymateb yn dda i'r heriau, fel y rhai y mae awtomeiddio yn eu hachosi, yn ogystal â'r cyfleoedd, gan gynnwys drwy ddatblygiad cyflog⁴⁶, y mae economi ddynamig sy'n newid yn eu cyflwyno.

Rydym am helpu oedolion heb waith i ddychwelyd i fyd gwaith a helpu oedolion eraill i symud i sectorau gwahanol drwy ailsgilio, er mwyn cynyddu cydnheredd a hyblygrwydd y gweithluoedd, a'u gallu i drosglwyddo, er mwyn i bobl allu dod o hyd i

⁴⁶ Ar y cyfan, mae datblygiad cyflog yn uwch i'r rhai sy'n newid cyflogwr o'u cymharu â'r rhai sy'n aros yn yr un swydd neu'n symud i swydd newydd gyda'r un cyflogwr, ac yn uwch byth i'r rhai sy'n newid cyflogwr a rhanbarth. Mae arferion rheoli fel darparu hyfforddiant, datblygu marchnadoedd llafur mewnol, a gweithio hyblyg hefyd wedi cael eu nodi fel penderfyniadau pwysig mewn cysylltiad â chyfleoedd datblygu.

gyflogaeth ystyrllon neu ddatblygu i gyflogaeth well neu fwy sicr. Efallai y bydd rhaid i weithluoedd presennol fabwysiadu agwedd dysgu i fyw, ac addasu ac ennill sgiliau gwahanol wrth i'w swyddi gael eu hailddylunio o ganlyniad i newid technolegol, neu oherwydd eu bod yn newid gyrfa neu'n dechrau ar rolau newydd. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd camu ymlaen yn y gweithle a lleihau'r gwahaniaethu mewn tâl o ran rhywedd, hil a phobl anabl, yn ogystal ag adlewyrchu anfantais economaidd-gymdeithasol, gyda chefnogaeth benodol i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ddatblygu i uwch swyddi rheoli. Mae bod yn weladwy a chyfrannu at rolau arweinyddiaeth ac ar draws sectorau yn fuddiol i gyflogwyr ac i weithwyr fel ei gilydd.⁴⁷

Mae buddion sylweddol i uwchsgilio pobl yng Nghymru a'u cyfateb i anghenion cyflogwyr a'r diwydiant, gan gynnwys prentisiaethau, cadwyni cyflenwi ac entrepreneuriaeth, er mwyn creu cyfleoedd ar gyfer datblygiad unigol ac adeiladu capasiti ar gyfer twf mentrau. Hefyd mae gan sefydliadau addysg bellach ac uwch a chyflogwyr sydd wedi'u hangori mewn cymunedau lleol rôl sylweddol i'w chwarae yn uwchsgilio ac yn cynnig cyflogaeth i bobl sy'n dod o ardaloedd o amddifadedd uchel yn aml.

Tra bydd effeithiau economaidd niweidiol y pandemig Covid yn parhau, bydd hi'n bwysig bod pobl ifanc yn aros mewn hyfforddiant neu addysg i'w gwarchod rhag heriau uniongyrchol y farchnad lafur a'r effeithiau dwys dros y tymor hir, ac i'w gwneud yn fwy parod am waith pan fyddant yn ymuno â'r farchnad lafur.

Rydym hefyd am leihau costau hanfodol i bobl sydd ar incwm isel. Mae cyfleoedd i sicrhau hyn drwy rôl cymdeithasau tai, undebau credyd, mentrau cynhwysiant digidol a mentrau lleol yn darparu mynediad at nwyddau a gwasanaethau, yswiriant cartref rhad, cynlluniau newid cyflenwr ynni ar y cyd, a thrafnidiaeth.

Amcanion Strategol

- 1. Lleihau lefelau diweithdra a chynyddu lefelau cyfranogiad yn y farchnad lafur i'r rhai y mae'r pandemig Covid wedi cael yr effaith economaidd fwyaf arnynt, yn enwedig pobl ifanc, y rhai mewn cyflogaeth incwm isel ac ansicr, merched, pobl BAME, a phobl anabl**
- 2. Cynyddu symudedd gweithluoedd presennol a/neu eu gallu i addasu**
- 3. Gwellu lefelau cymwysterau a/neu sgiliau**
- 4. Cefnogi gweithgareddau i leihau costau hanfodol i bobl sydd ar incwm isel**
- 5. Lleihau'r gwahaniaethau mewn tâl o ran rhywedd, hil a phobl anabl, a/neu gefnogi datblygiad mewn sectorau ac ar draws sectorau**

⁴⁷ <https://www.cipd.co.uk/knowledge/fundamentals/relations/diversity/factsheet#6428>

Tabl 2: Lleihau'r Ffactorau sy'n arwain at Anghydraddoldeb Economaidd – Damcaniaeth Newid

Gweithgareddau ⇨	Allbynnau ⇨	Canlyniadau ac Effeithiau
Mathau bras o weithgareddau i'w hariannu: • Cyngor a chanllawiau ar yrfaeodd a chyflogaeth • Cymorth cyflogadwyedd • Hyfforddiant galwedigaethol/cymorth cyflogadwyedd • Darpariaeth i alluogi pobl ifanc i aros mewn addysg • Ymgysylltu a datblygu sgiliau meddal i bobl ifanc • Profiad gwaith, gwirfoddoli • Entrepreneuriaeth a dechrau busnes newydd • Uwchsgilio/ailsgilio • Dysgu yn y gymuned i bobl ifanc ac oedolion • Sgiliau digidol ac ymgysylltu • Mynd i'r afael ag allgáu digidol • Annog cyflogwyr i gyflogi, creu swyddi newydd, a chamu ymlaen yn y gwaith • Cyfateb swyddi/sgiliau	Er enghraifft, gallai'r allbynnau gynnwys: • Rhagor o bobl yn symud i waith, gan gynnwys hunangyflogaeth • Rhagor o bobl mewn dysgu pellach a dysgu galwedigaethol • Rhagor o bobl mewn cyflogaeth wahanol/yn newid gyrfaeodd • Rhagor o gymwysterau'n cael eu hennill mewn sector gwahanol a/neu lwybr cyflogaeth • Rhagor o gymwysterau'n cael eu hennill ar lefel uwch • Llai o aelwydydd mewn tlodi incwm • Rhagor o weithwyr yn ennill y Cyflog Byw gwirioneddol o leiaf • Llai o weithwyr ar fudd-daliadau mewn gwaith • Rhagor o gyfleoedd ar gyfer camu ymlaen mewn gyrfa • Lefelau uwch o ran cymhwysedd digidol	Amcanion strategol sy'n cyfrannu at Leihau'r Ffactorau sy'n Arwain at Anghydraddoldeb Economaidd: 1. Lleihau lefelau diweithdra a chynyddu lefelau cyfranogiad yn y farchnad lafur y rhai y mae'r pandemig Covid wedi cael yr effaith economaidd fwyaf arnynt, yn enwedig pobl ifanc, y rhai mewn cyflogaeth incwm isel ac ansicr, merched, pobl BAME, a phobl anabl. 2. Cynyddu symudedd gweithluoedd presennol a/neu eu gallu i addasu. 3. Gwella lefelau cymwysterau a/neu sgiliau. 4. Cefnogi gweithgareddau i leihau costau hanfodol i bobl sydd ar incwm isel. 5. Lleihau'r gwahaniaethau mewn tâl o ran rhywedd, hil a phobl anabl, a/neu gefnogi datblygiad mewn sectorau ac ar draws sectorau. Gall prosiectau gyfrannu at un neu fwy o'r uchod, ac at ganlyniadau ar draws Meysydd Blaenoriaeth eraill a'r Themâu Llorweddol cyfleoedd cyfartal, prif ffrydio rhywedd, datblygu cynaliadwy, a'r Gymraeg.

Cefnogi'r Broses o Bontio i Economi Ddi-Garbon

Yr argyfwng hinsawdd yw her fyd-eang ein hoes ni. Mae'r risgiau'n real i bob dinesydd a busnes, ond maen nhw waethaf i'r rhai sydd eisoes dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd pontio i economi ddi-garbon yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd glân ac effeithlon o ran ynni, swyddi o ansawdd a buddion yn y farchnad fyd-eang, yn ogystal â buddion i'n heconomi, ein hiechyd, ein cyfalaf naturiol, a'n gwasanaethau ecosystemau.

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Mae Cymru eisoes yn y broses o bontio, yn lleihau lefel ei hallyriadau ac yn datgloi cyfleoedd datblygiad economaidd glân⁴⁸. Y trosiant a gynhyrchwyd gan fusnesau sy'n weithredol yn economi "Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy" Cymru oedd £2.2 biliwn yn 2018, cynnydd o 15% o'i gymharu â 2017. Ar hyn o bryd, mae gan Gymru ddigon o ynni adnewyddadwy i ddarparu hanner ei defnydd o drydan, cynnydd o chwarter ers 2014. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn wedi dod o dyrbinau gwynt, ar y môr ac ar y tir. Mae Cymru hefyd yn cael ei hystyried yn arweinydd blaenllaw ym maes ymchwil a datblygu syniadau gwyrdd newydd. Daw allyriadau Cymru o bob math o ffynonellau, ond busnesau, tai, trafnidiaeth ac amaethyddiaeth sy'n eu hachosi'n bennaf.

Mae ein hymrwymiad cenedlaethol i ddatblygu economi sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol wedi'i nodi yn ein Polisi Adnoddau Naturiol⁴⁹ a'i ddangos yn, er enghraifft, ein Strategaeth Economi Gylchol⁵⁰. Rydym hefyd yn cydnabod yr ymrwymiad hwn yn ein meysydd blaenoriaeth eraill drwyddynt draw.

Ein nod

Rydym yn awyddus i adeiladu ar enw da a gallu Cymru i ymchwilio ac arloesi ym maes cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwneud yn siŵr bod Cymru'n cadw rhagor o werth drwy bontio i system ynni fwy clyfar, fwy adnewyddadwy. Y prif gyfraniadau at allyriadau carbon yn yr economi y gallwn helpu i'w lleihau yw'r rhai yn y seilwaith trafnidiaeth y mae busnesau yn ei ddefnyddio, cynaliadwyedd systemau rheoli gwastraff eu lleoliadau, effeithlonrwydd yr ynni yr ydym yn ei gynhyrchu o ran adnoddau a ble y caiff ei ddefnyddio, a datgarboneiddio preswyl.

Cafodd ein targedau ynni adnewyddadwy yn 2017 eu hailadrodd yn *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel*. Erbyn 2030, bydd o leiaf 70% o'r trydan sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu gan ynni adnewyddadwy, gydag 1 GW o drydan adnewyddadwy a gynhyrchir o dan berchnogaeth leol erbyn 2030. Dylai'r ffyrdd newydd o gynhyrchu ynni yng Nghymru fod yn gysylltiedig ag o leiaf elfen o

⁴⁸ Mae datblygiad economaidd glân yn golygu twf economaidd sy'n effeithlon o ran ynni.

⁴⁹ <https://llyw.cymru/y-polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol>

⁵⁰ <https://llyw.cymru/mwy-nag-ailgylchu>

berchnogaeth leol hefyd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod Cymru'n cadw'r buddion a ddaw wrth bontio i system ynni lanach. Rydym hefyd am helpu cymunedau i gael eu pwerau gan ynni sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol fel rhan o system ynni hyblyg a chlyfar. Bydd cadw'r gwaith cynhyrchu a'r buddion yn agosach i'w gilydd yn lleihau costau trosglwyddo ynni dros bellter hir, ac yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer perchnogaeth leol.

Rydym am leihau allyriadau trafndiaeth drwy annog pobl i ddefnyddio dulliau teithio amgen, gan gynnwys cerdded, beicio, a thrafnidiaeth gyhoeddus, datblygu systemau trafndiaeth ag allyriadau isel iawn, ac adeiladu ar rwydwaith gorsafoedd gwefru trydanol i alluogi cerbydau trydanol i gael eu mabwysiadu'n ehangach.

Rydym hefyd am fynd i'r afael ag allyriadau tai drwy newidiadau mewn ymddygiad, effeithlonrwydd ynni a mesurau gwresogi carbon isel – blaenoriaeth sy'n cael ei disgrifio gennym yn ein Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, rhan o'r Rhaglen Tai Arloesol⁵¹. Rydym hefyd yn awyddus i gefnogi effeithlonrwydd ynni ffermydd drwy gynyddu gorchudd coed, lleihau colledion carbon o fawndiroedd a chreu storffeydd carbon mewn biomas.

Mae'r pwyslais ar hyn yn gryfach yn awr o ganlyniad i'r pandemig Covid, gyda'r cynlluniau ar gyfer ailadeiladu'r economi yn rhoi blaenoriaeth i fesurau ar gyfer adferiad gwyrdd. Mae'r rhan yn cynnwys blaenoriaethau i fanteisio ar y cyfleoedd economaidd yn yr economi carbon isel a'r economi gylchol, buddsoddi mewn tai caron isel ar raddfa eang, rheoli ein tir er budd cymunedau gwledig, a diogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.

Amcanion Strategol

- 1. Cynhyrchu rhagor o ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol**
- 2. Cefnogi'r broses o bontio i fyw mewn ffordd carbon isel, gan gynnwys trafndiaeth a rheoli gwastraff**
- 3. Cefnogi cynlluniau tai ac adeiladu ag arian cyfalaf i leihau allyriadau**
- 4. Gwella bioamrywiaeth a dadwneud effeithiau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd**
- 5. Datblygu a chefnogi'r ymchwil, y datblygiad a'r sgiliau perthnasol sydd eu hangen ar y gweithlu ar gyfer datgarboneiddio**

⁵¹ <https://lyw.cymru/rhaglen-9-a-hanner-miliwn-i-leihau-ol-troed-carbon-y-sector-tai>

Tabl 3: Cefnogi'r Broses o Bontio i Economi Ddi-Garbon – Damcaniaeth Newid

Gweithgareddau ⇨	Allbynnau ⇨	Canlyniadau ac Effeithiau
Mathau bras o weithgareddau i'w hariannu: • ymchwil a datblygu • prentisiaethau • hyfforddeiaethau • uwchsgilio • Cynhyrchu ynni yn lleol a dan berchnogaeth y gymuned • Seilwaith trafnidiaeth werdd • Adnewyddu tai • Twf bioamrywiaeth • Mentrau ailgylchu gwastraff	Er enghraifft, gallai'r allbynnau gynnwys: • Cynhyrchu rhagor o ynni drwy ddulliau adnewyddadwy • Cynhyrchu rhagor o ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol • Rhagor o fuddion neu fuddion o ansawdd gwell yn cael eu sicrhau drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gadw yng Nghymru • Mwy o ddefnydd o drafnidiaeth carbon isel a dulliau teithio amgen • Lleihau lefelau gwastraff • Rhagor o arloesi rhad-ar-ynni mewn prosiectau adeiladu ag arian cyfalaf • Adnewyddu rhagor o stoc dai Cymru i leihau tlodi tanwydd • Rhagor o sianeli cymorth i'r ymdrechion gan fusnesau a chymunedau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd • Rhagor o fesurau bioamrywiaeth sy'n helpu i fynd i'r afael ag allyriadau nwyon tŷ gwydr • Rhagor o waith ymchwil a datblygu ar gynhyrchu ynni mewn ffyrdd newydd a	Amcanion strategol sy'n cyfrannu at gefnogi'r broses o bontio i economi ddi-garbon: 1. Cynhyrchu rhagor o ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol. 2. Gwellu'r broses o bontio i fyw mewn ffordd carbon isel, gan gynnwys trafnidiaeth a rheoli gwastraff. 3. Cefnogi cynlluniau tai ac adeiladu ag arian cyfalaf i leihau allyriadau. 4. Gwellu bioamrywiaeth ac atal effeithiau allyriadau nwyon tŷ gwydr rhag gwaethygu. 5. Datblygu a chefnogi'r ymchwil, y datblygiad a'r sgiliau perthnasol sydd eu hangen ar y gweithlu ar gyfer datgarboneiddio. Gall prosiectau gyfrannu at un neu fwy o'r uchod, ac at ganlyniadau ar draws Meysydd Blaenoriaeth eraill a'r Themâu Llorweddol cyfleoedd cyfartal, prif ffrydio rhywedd, datblygu cynaliadwy, a'r Gymraeg.

	gwell, a thechnoleg storio ynni, cadwraeth, rheoli, ac effeithlonrwydd • Cynyddu cyfradd y sgiliau newydd yn y gweithlu sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd • Busnesau'n defnyddio rhagor o dechnoleg sy'n helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd • Rhagor o weithwyr yn meddu ar sgiliau arbenigol mewn meysydd sy'n ymwneud â mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd	
--	---	--

Cymunedau Iachach, Tecach a mwy Cynaliadwy

Mae gweithluoedd sy'n hapus ac yn iach, a chymunedau cryf a chydnerth sydd â chysylltiadau da, yn asedau economaidd sydd o fudd i bawb. Mae'r cyswllt rhwng llesiant a'r economi yn gliriach nag erioed. Rydym am helpu i sicrhau bod gan gymunedau lle a chymunedau pobl y cydnerthedd a'r strwythurau sydd eu hangen arnynt er mwyn i'r bobl sy'n byw yma allu byw bywyd hir a hapus, a gwireddu eu potensial i wneud cyfraniad cynhyrchiol i'n heconomi a'n cymdeithas.

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Mae effaith economaidd-gymdeithasol y pandemig Covid wedi tynnu sylw helaeth at yr anghydraddoldeb a'r heriau sy'n bodoli eisoes yn ein cymdeithas. Ar ôl deng mlynedd o gyni a cholli ffynonellau traddodiadol o gyflogaeth i wledydd eraill, roedd llawer o gymunedau eisoes yn gweld pethau'n anodd. Mae canol trefi yn dioddef wrth i siopau gau, wrth i fwy o bobl siopa ar-lein⁵², wrth i'r sector cyhoeddus grebachu, wrth i gynnydd sylweddol yn y nifer sy'n gweithio gartref effeithio ar nifer y bobl sy'n mynd i ganol trefi⁵³, ac yn sgil diffyg mewnfuddsoddi. Mae rhai pobl yn dal yn methu cael gafael ar wasanaethau digidol. Mae amseroedd gwasanaethau trafnidiaeth yn gallu cyfyngu mynediad at ofal a thwf busnesau. Nid yw pawb yn cael yr un cyfle i gael blas ar wahanol ddiwylliannau a mathau o dreftadaeth yng Nghymru. Mae anghydraddoldeb economaidd yn arwain at anghydraddoldebau enfawr o ran canlyniadau iechyd, ac mae llawer gormod o rwysterau o hyd sy'n atal pobl rhag cyfranogi mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a rhag cyrraedd eu potensial llawn.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae cymunedau yng Nghymru yn gallu bod yn fywiog, yn greadigol ac yn gadarn. Gallent gynnig llawer o gyfalaf dynol, a gwelir nifer o enghreifftiau o bobl leol a'r trydydd sector yn ehangach – ar y cyd ag eraill yn aml iawn – yn arwain y gwaith o ddiogelu'r amgylchedd, helpu'r rheini sydd mewn angen, trechu tlodi a chreu ffyniant. Yn ogystal â rhoi sylw i'n diffygion o ran cyllid, rydym yn sylweddoli ei bod yn hollbwysig adeiladu ar ein hasedau. Rydym wedi gweld potensial cyfalaf cymdeithasol mewn ymatebion lleol i'r pandemig Covid mewn cymunedau ledled Cymru. Mae cymunedau cydnerth a chynaliadwy yn bwysicach nag erioed.

Ein nod

Rydym am gefnogi a grymuso cymunedau trefol, gwledig, ôl-ddiwydiannol, dinesig ac arfordirol i ganfod a datblygu atebion arloesol i'r rhwystrau cymdeithasol ac economaidd maen nhw'n eu hwynebu er mwyn gallu ffynnu. Rydym am annog ymwybyddiaeth o'r rôl y mae lle yn ei chwarae o ran sbarduno cyfleoedd

⁵² Ym mis Awst, roedd twf gwerthiannau ar-lein o un flwyddyn i'r llall ar gyfer pob sector manwerthu yn 51.6%. ONS. (2020, Medi 18). Retail sales, Great Britain: August 2020.

⁵³ Costa Dias, M., Farquharson, C., Griffith, R., Joyce, R., a Levell, P. (2020). Getting people back into work. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

economaidd newydd. Rydym am ddiogelu a meithrin y Gymraeg a'r cymunedau a'r rhwydweithiau sy'n ei chynnal, a meithrin iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol. Rydym am weld mwy o fusnesau, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol yn y trydydd sector yn gyffredinol yn cynnal gweithgareddau ar y cyd â'r gymuned leol. Rydym am i wasanaethau ecosystemau, y cyfalaf naturiol sydd ar gael i gymunedau lle ledled Cymru, a'n heconomi gylchol, fod yn rhan bwysig o'n heconomiâu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. O ran gweithio gyda dinasyddion, cyrff sy'n agosach at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu sydd yn y sefyllfa orau i drefnu a rheoli sut y caiff hynny ei gydlyn. Cyrff cenedlaethol a rhanbarthol sydd yn y sefyllfa orau i fanteisio ar arferion da partneriaid rhanbarthol a lleol⁵⁴ i rymuso'r broses o gyflawni canlyniadau.

Mae cyfle i ymchwil a datblygu ddwyn ffrwyth ar raddfa eang yn ein system iechyd a gofal er mwyn gwneud gwahaniaeth i bobl ac i gymunedau, gan gynnwys drwy'r effeithiau ar benderfyniadau amgylcheddol iechyd. Bydd hyn yn gofyn am ragor o gydweithio, partneriaethau strategol a chanolfannau rhagoriaeth mewn meysydd fel anghydraddoldebau iechyd, gofal cymdeithasol, data, neu'r gweithlu iechyd a gofal.

Gan fod yr heriau sy'n wynebu manwerthu ar y stryd fawr wedi dwysáu eto yn sgil y pandemig Covid, mae angen inni addasu canol ein trefi at ddibenion gwahanol ar sail cartrefi, swyddfeydd, hamdden a lletygarwch, dysgu, gwasanaethau a lleoedd cymunedol sy'n parchu ac yn cefnogi bioamrywiaeth. Gall canol ein trefi fod yn lleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a diwylliannol, yn ogystal â thrafodiadau economaidd a masnachol. Drwy hyrwyddo gwell cysylltedd, gallwn leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau a sicrhau bod dinasyddion yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Gallwn adeiladu economïau drwy wella cysylltedd, yn ddigidol a drwy drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys ar draws ffiniau. Rydym yn awyddus i gryfhau canol trefi drwy greu a chryfhau'r seilwaith cymdeithasol sydd ei angen er mwyn i gymunedau weithredu a bodoli fel y dylent, gan gynnwys y diwydiannau creadigol, sy'n hollbwysig i hyrwyddo ymdeimlad cryf o le a phobl. I wneud hynny bydd angen defnyddio lleoedd cymunedol yn well, datblygu asedau cymunedol newydd – yn enwedig seilwaith gwyrdd – a chysylltedd sydd wedi'i integreiddio'n well.

Rydym am i bobl gael mynediad cyfartal at wasanaethau ar hyd a lled Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar y bobl sy'n wynebu'r perygl mwyaf o anfantais economaidd-gymdeithasol. Rydym am wella mynediad at safleoedd diwylliant a threftadaeth er mwyn gwrthsefyll effeithiau a ddaw yn sgil teimlo'n ynysig, yn enwedig i bobl hŷn a phobl anabl. Rydym am annog dulliau gweithredu arloesol ar gyfer yr heriau hyn ac am fynd i'r afael â'r risgiau i iechyd meddwl ymysg plant a phobl ifanc, yn ogystal ag oedolion, o ganlyniad i'r pandemig Covid.

⁵⁴ Er enghraifft, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n dod â'r prif randdeiliaid ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol, darparwyr gofal, tai ac addysg at ei gilydd.

Rydym hefyd am gynnig cyfleoedd economaidd cynaliadwy i bobl ifanc, ble bynnag maent yn byw, fel nad oes raid iddynt symud i ffwrdd i gael gwaith da.

Mae'r pandemig Covid wedi gwneud rhai grwpiau a rhai ardaloedd yn llawer mwy agored i niwed, ac mae'n hanfodol mynd i'r afael â hyn, a hynny ar fyrder. Mae mynediad at wasanaethau a gwelliannau i dai yn benderfynyddion allweddol ar gyfer iechyd meddwl a chorfforol⁵⁵. Mae ein blaenoriaethau o ran ailadeiladu'r economi yn cynnwys cynyddu ein buddsoddiad mewn canol trefi, gan gynnwys darparu gwell mynediad at fannau agored, creu canolfannau gweithio o bell, a sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn fwy hygyrch. Gall ein Fframwaith gefnogi ac adeiladu ar y gweithgareddau hyn, ac ar ddull Llywodraeth Cymru o gefnogi a datblygu'r economi sylfaenol, gan fuddsoddi'n ychwanegol mewn cymunedau ledled Cymru.

Amcanion Strategol

- 1. Grymuso cymunedau pobl a chymunedau lle i gydgyhyrchu atebion i broblemau cyffredin, i gysylltu â phartneriaid cyflawni, ac i rannu'r arferion gorau.**
- 2. Lleihau anghydraddoldeb o ran mynediad pobl at wasanaethau, nwyddau a gweithgareddau hamdden neu ddiwylliannol lleol, yn enwedig lle mae'r angen mwyaf ymysg grwpiau agored i niwed neu grwpiau ar y cyrion.**
- 3. Gwella seilwaith economaidd i gefnogi cymunedau cynaliadwy o bobl mewn ardaloedd gwledig, arfordirol, dinesig a threfol.**
- 4. Creu atebion seiliedig ar gymunedau i adfywio ac addasu canol trefi i fod yn lleoedd cynaliadwy ar gyfer byw, dysgu, hamdden a gwaith.**

⁵⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>

Tabl 4: Cymunedau iachach, Tecach a mwy Cynaliadwy – Damcaniaeth Newid

Gweithgareddau ⇨	Allbynnau ⇨	Canlyniadau ac Effeithiau
Mathau bras o weithgareddau i'w hariannu: • Datblygu'r economi sylfaenol • Manteisio ar asedau lleol • Gwellu gallu unigolion i ymuno â'r gweithlu • Gwellu sgiliau unigolion i gael gwaith a chamu ymlaen ynddo • Sgiliau sefydliadau i gyflogi grwpiau dan anfantais o ran iechyd, namau, rhywedd, hil • Cymorth i weithwyr yn y sector gofal • Mynediad at wasanaethau • Seilwaith cymdeithasol hollbwysig • Grymuso datblygu dan arweiniad y gymuned	Er enghraifft, gallai'r allbynnau gynnwys: • Rhagor o leoliadau, gwasanaethau ac ati yn gallu cynnal busnes drwy gyfrwng y Gymraeg • Darparu rhagor o nwyddau a gwasanaethau o'r sectorau bwyd a manwerthu, a chynyddu mynediad y gymuned atynt • Lefelau uwch o asedau canol trefi wedi'u haddasu i fod yn gynaliadwy • Cynyddu'r ddarpariaeth a mynediad y gymuned at y sector iechyd a gofal • Rhagor o gyflogwyr yn bodloni safonau a nodweddion Gwaith Teg • Rhagor o fynediad i unigolion at gynlluniau cymorth sy'n bodoli eisoes mewn cysylltiad â chael gwaith a chamu ymlaen ynddo • Rhagor o fynediad at wasanaethau gofal i'r rhai y mae eu hangen arnynt • Rhagor o fynediad at hyfforddiant a chymwysterau yn y gwaith i'r gweithlu gofal cymdeithasol • Helpu rhagor o gyflogwyr gofal	Amcanion strategol sy'n cyfrannu at Gymunedau iachach, tecach a mwy cynaliadwy: 1. Grymuso cymunedau pobl a chymunedau lle i gydgyhyrchu atebion i broblemau cyffredin, i gysylltu â phartneriaid cyflawni, ac i rannu'r arferion gorau. 2. Lleihau anghydraddoldeb o ran mynediad pobl at wasanaethau, nwyddau a gweithgareddau hamdden neu ddiwylliannol lleol, yn enwedig lle mae'r angen mwyaf ymysg grwpiau agored i niwed neu grwpiau ar y cyron. 3. Gwellu seilwaith cymdeithasol ac economaidd i hyrwyddo cymunedau cynaliadwy o bobl mewn ardaloedd gwledig, arfordirol, dinesig a threfol. 4. Creu atebion seiliedig ar gymunedau i adfywio ac addasu canol trefi i fod yn lleoedd cynaliadwy ar gyfer byw, dysgu, hamdden a gwaith. Gall prosiectau gyfrannu at un neu fwy o'r uchod, ac at ganlyniadau ar draws Meysydd Blaenoriaeth eraill a'r Themâu Llorweddol cyfleoedd cyfartal, prif ffrydio rhywedd, datblygu cynaliadwy, a'r

	cymdeithasol i gyrraedd safonau gwaith teg • Gwellu mesurau cynhwysiant digidol • Gwell canlyniadau o ran y rhwydweithiau trafnidiaeth yng Nghymru • Rhagor o fynediad at safleoedd diwylliannol a threftadaeth yn y rhanbarth • Gwell amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol a manteisio ar gyfalaf naturiol cymunedau • Cynyddu cyfradd y defnydd o asedau cymunedol presennol neu newydd • Integreiddio gwahanol seilwaith yn well	Gymraeg.
--	---	-----------------

Llywodraethu Cyson a Thryloyw

Bydd cyllid buddsoddi rhanbarthol yn cael ei weinyddu o fewn fframwaith llywodraethu tryloyw a fydd yn cynnwys set o reolau er mwyn gwneud penderfyniadau mewn ffordd gyson, deg a chyfartal.

Bydd y rheolau hyn yn berthnasol i brosiectau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Dros amser, wrth i'r gwaith o gyflawni ein Fframwaith ddatblygu a'r gwaith rhanbarthol gyflymu, efallai y bydd angen i'r rheolau fod yn fwy hyblyg ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid i roi sylw i hyn. Bydd y dull llywodraethu hefyd yn cefnogi'r hyblygrwydd gofynnol i ymateb yn effeithiol i risgiau ac i ddarparu ar gyfer gwahaniaethau, cryfderau ac anghenion rhanbarthol.

Mae cysondeb yn bwysig hefyd wrth ystyried yr adnoddau a'r prosesau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith. Byddwn yn defnyddio'r fethodoleg Gwell Achosion Busnes⁵⁶ fel sail i'n proses o wneud penderfyniadau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, a bydd achosion busnes prosiectau'n dilyn y Model Pum Achos⁵⁷. Byddwn yn ei defnyddio mewn ffordd gymesur ac yn cynnig canllawiau ar y wybodaeth y bydd angen i sefydliadau ei darparu er mwyn cael gafael ar gyllid.

Rydym wrthi'n datblygu trefniadau llywodraethu ar gyfer ein Fframwaith mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid. Ein nod yw cael dull llywodraethu sydd mor glir, syml a chymesur â phosibl, ond gan gydnabod hefyd bod stiwardiaeth ardderchog dros arian cyhoeddus yn hollbwysig.

Cyllid Amlflwydd

Un o werthoedd allweddol cyllid Ewropeaidd a nodwyd gan rhanddeiliaid yw argaeledd cyllid amlflwydd. Drwy sicrhau bod cyllidebau ar waith ar gyfer y tymor hwy, gall buddiolwyr gynllunio'n fwy effeithiol ac ymrwymo rhagor o adnoddau i sicrhau cymaint o ganlyniadau buddiol â phosibl. Byddwn yn parhau i geisio sicrwydd gan Lywodraeth y DU ar y mater hwn, oherwydd bydd rhaid gwneud penderfyniadau yn unol â'r rheolau ariannol ac ystyried y cyd-destun ariannol ar y pryd⁵⁸. Fodd bynnag, lle bo'n bosibl, byddwn yn darparu cyllid amlflwydd i elfennau o fuddsoddi rhanbarthol a chefnogi cynlluniau tymor hwy.

⁵⁶ <https://llyw.cymru/gwell-achosion-busnes-fframwaith-gwneud-penderfyniadau-buddsoddi>

⁵⁷ <https://llyw.cymru/y-model-pum-achos-templedi>

⁵⁸ Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu cynnal Adolygiad o Wariant blwyddyn, gan nodi adnoddau a chyllidebau cyfalaf adrannau ar gyfer 2021-22, a grantiau bloc y Llywodraethau Datganoledig ar gyfer yr un cyfnod. Gweler <https://www.gov.uk/government/news/spending-review-to-conclude-late-november>

Cyllid Ad-daladwy

Bydd ein Fframwaith yn defnyddio cyllid ad-daladwy lle mae diffygion yn y farchnad wedi'u nodi. Gan fod angen lefel uchel o arbenigedd technegol i roi offerynnau ariannol ar waith, a'r adnoddau sylweddol sy'n rhan o greu cronfeydd unigol, bydd hi'n well cadw'r gwaith o'u gweinyddu ar lefel genedlaethol er mwyn manteisio'n llawn ar arbedion maint. Byddai'r rhanbarthau, drwy'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, yn darparu'r cyfeiriad strategol sydd ei angen i flaenoriaethu ymyriadau sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau lleol, yn seiliedig ar y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol.

Byddwn yn cynnal asesiadau o'r farchnad ar draws y meysydd effaith y cytunwyd arnynt yn y Fframwaith er mwyn nodi lle gallai dulliau ad-daladwy fod yn ymarferol, ac yn ceisio prif ffrydio'r defnydd ohonynt.

Rydym yn deall y pwysau ariannol eithriadol sydd ar sefydliadau yng Nghymru ar draws pob sector o ganlyniad i effaith y pandemig Covid. Felly, mae'n bosibl na fydd model ad-daladwy llawn yn realistig ar gyfer pob ymyriad ac, os felly, byddwn yn datblygu cynnig hyblyg, gan gyfuno grantiau â chyllid ad-daladwy a dulliau buddsoddi ar y cyd eraill er mwyn gwneud y buddsoddiad rhanbarthol mor gynaliadwy a hirhoedlog â phosibl.

Bydd ein gwaith o ddylunio a datblygu gweithgareddau cyllid ad-daladwy addas yn cael ei arwain gan y dystiolaeth a ddarperir drwy ein hasesiad o'r farchnad, a fydd yn edrych yn benodol ar yr amgylchiadau ariannol ledled Cymru a pha mor ymarferol fydd defnyddio cyllid ad-daladwy i gyflawni amcanion strategol ein Fframwaith.

Gwerthuso a Dangos Tystiolaeth o Gyflawni

Mae monitro a gwerthuso cadarn ac effeithiol yn hollbwysig i lwyddiant pob polisi a buddsoddiad.

Bydd y swyddogaethau monitro a gwerthuso, y bwriadwn eu sefydlu, yn cefnogi'r gwaith o reoli a darparu pob buddsoddiad, ac yn adeiladu sylfaen dystiolaeth er mwyn llywio buddsoddiadau yn y dyfodol a galluogi cymariaethau perfformiad ar draws Cymru. Yn benodol, byddant yn sicrhau bod data parhaus ffurfiannol yn cael eu casglu ar ddarpariaeth a chynnydd y gwahanol fathau o weithgareddau buddsoddi, ac yn sicrhau atebolrwydd yr arian sy'n cael ei wario a chyflawniad y canlyniadau a fwriedir. Bydd canllawiau llawn i helpu rhanbarthau i gyflawni eu cyfrifoldebau monitro a gwerthuso; rydym yn anelu at fod â dull safonol o fesur perfformiad pan fo'n bosibl er mwyn gallu asesu a chymharu perfformiad ar draws Cymru.

Atodiad: Rhestr o'r Amcanion Strategol

Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol

- AS1.1 Cefnogi'r gwaith o greu a chadw swyddi cynaliadwy sy'n bodloni'r diffiniad o waith teg fel y'i nodir yn Gwaith Teg Cymru.
- AS1.2 Cefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol, olyniaeth busnesau cynhenid yn ogystal â chadw'r busnesau hynny, gyda phwyslais penodol ar ddatblygu i fod yn gwmnïau cynhyrchiol canolog eu maint sydd â'u gwreiddiau yn eu cymunedau lleol.
- AS1.3 Helpu'r gweithlu yng Nghymru i ddatblygu eu sgiliau a chael hyfforddiant er mwyn sicrhau datblygiad, yn enwedig y sgiliau i bontio i dechnoleg Diwydiant 4.0 a 5.0.
- AS1.4 Ehangu'r capasiti o ran ymchwil, datblygu, cyfnewid gwybodaeth ac arloesi effeithiol mewn busnesau a sefydliadau ymchwil yng Nghymru, gan anelu at fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat cystadleuol cynyddol a llwyddo i drosi ymchwil yn gynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd a gwell.
- AS1.5 Helpu busnesau i gymryd rhan mewn rhwydweithiau arferion gorau yn y DU/yn rhyngwladol os ydynt yn gysylltiedig â gwell cynhyrchiant a chystadleurwydd.
- AS1.6 Sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn gallu cael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt er mwyn ffynnu a datblygu, gan gynnwys dewisiadau cyllid addaladwy lle bo'n briodol, a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd trawsffiniol a rhyngwladol.

Lleihau'r ffactorau sy'n arwain at anghydraddoldeb economaidd

- AS2.1 Lleihau lefelau diweithdra a chynyddu lefelau cyfranogiad yn y farchnad lafur i'r rhai y mae'r pandemig Covid wedi cael yr effaith economaidd fwyaf arnynt, yn enwedig pobl ifanc, y rhai mewn cyflogaeth incwm isel ac ansicr, merched, pobl BAME, a phobl anabl.
- AS2.2 Cynyddu symudedd gweithluoedd presennol a/neu eu gallu i addasu.
- AS2.3 Gwella lefelau cymwysterau a/neu sgiliau.
- AS2.4 Cefnogi gweithgareddau i leihau costau hanfodol i bobl sydd ar incwm isel.
- AS2.5 Lleihau'r gwahaniaethau mewn tâl o ran rhywedd, hil a phobl anabl, a/neu gefnogi datblygiad mewn sectorau ac ar draws sectorau.

Cefnogi'r broses o bontio i economi ddi-garbon

- AS3.1 Cynhyrchu rhagor o ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol.

- AS3.2 Cefnogi'r broses o bontio i fyw mewn ffordd carbon isel, gan gynnwys trafnidiaeth a rheoli gwastraff.
- AS3.3 Cefnogi cynlluniau tai ac adeiladu ag arian cyfalaf i leihau allyriadau.
- AS3.4 Gwella bioamrywiaeth a dadwneud effeithiau allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- AS3.5 Datblygu a chefnogi'r ymchwil, y datblygiad a'r sgiliau perthnasol sydd eu hangen ar y gweithlu ar gyfer datgarboneiddio.

Cymunedau iachach, tecach a mwy cynaliadwy

- AS4.1 Grymuso cymunedau pobl a chymunedau lle i gydgyhyrchu atebion i broblemau cyffredin, i gysylltu â phartneriaid cyflawni, ac i rannu'r arferion gorau.
- AS4.2. Lleihau anghydraddoldeb o ran mynediad pobl at wasanaethau, nwyddau a gweithgareddau hamdden neu ddiwylliannol lleol, yn enwedig lle mae'r angen mwyaf ymysg grwpiau agored i niwed neu grwpiau ar y cyrion.
- AS4.3 Gwella seilwaith economaidd i gefnogi cymunedau cynaliadwy o bobl mewn ardaloedd gwledig, arfordirol, dinesig a threfol.
- AS4.4 Creu atebion seiliedig ar gymunedau i adfywio ac addasu canol trefi i fod yn lleoedd cynaliadwy ar gyfer byw, dysgu, hamdden a gwaith.